

ECO'R WYDDFA

RHIF 271

HYDREF 2000

Pris 40c

Ysgol Brynrefail

Adeilad o gariad gwerin ydyw
i gadw cynefin,
ernes dros ormes y drin
i ryddin drwy ei rhuddin.

Norman Closs Parry

Edrych 'Mlaen wrth Edrych 'Nôl



Dafydd Whiteside Thomas ac Anne Parry Jones gydag aelodau o'r dosbarth hanes lleol y tu allan i Angorfa.

Cynhaliwyd dosbarth hanes lleol poblogaidd iawn yn Llanberis yn ystod yr haf a chymaint fu'r llwyddiant fel bod ardalwyr Penisarwaun bellach wedi penderfynu yr hoffent hwythau gael dosbarth tebyg yn y pentref.

Coleg Menai sy'n gyfrifol am gynnal y dosbarthiadau ac Anne Parry Jones, a fu'n gweithio fel gweithiwr maes i'r coleg yn ardal yr Eco yn ddiweddar, a fu'n gyfrifol am ddwyn pawb ynghyd.

Yng Nghanolfan Angorfa roedd y dosbarth yn cyfarfod yn Llanberis a hynny dan arweiniad Dafydd Whiteside Thomas, colofnydd gyda'r Eco ers 20 mlynedd. Roedd dros 20 yn cyfarfod yno bob wythnos, y rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o Glwb y Mamau. Ond rhaid peidio ag anghofio'r tri dyn a fentrodd i'w plith!

Un o'r rheiny oedd Goronwy Lewis a gafodd flas arbennig ar fynychu'r dosbarth. Meddai, 'Mi fu gen i ddiddordeb mewn Hanes erioed ac, ers i mi ymddeol o fy ngwaith fel cynorthwy-ydd stad efo Parc Cenedlaethol Eryri y Dolig diwethaf, dwi wedi bod wrthi yn hel achau. Mi wnes i fwynhau'r dosbarth yn ofandwy. Welais i erioed ddwy awr yn ffilio heibio

mor sydyn. Does gen i ddim ond y parch a'r diolch mwya i Mr Dafydd Whiteside Thomas am ei waith hefo ni.'

Meddai Mr Thomas, 'Mi fuo ni'n edrych ar ardal Eco'r Wyddfa, yn olrhain hanes sefydlu'r plwyfi a'r hen drefi canoloesol. Mi gawson ni noson arall lle buon ni'n edrych ar ddatblygiad ffyrdd a phontydd a rheilffyrdd yn yr ardal. Cafwyd ymweliad hefyd â mynwent Llanrug lle y mae yna dipyn o enwogion wedi eu claddu, Dafydd Ddu Eryri yn eu plith nhw, ac mi fuon ni hefyd yn dilyn hanes y gwaith copor yn Nant Peris.'

Bu Coleg Menai yn cynnal cyrsiau Technoleg Gwybodaeth yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn Llyfrgell Llanberis yn ystod y misoedd diwethaf hefyd. Am fanylion ynglŷn â'r cyrsiau sy'n cael eu cynnal gan y coleg yn ardal yr Eco, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ar (01248) 383333.

Dathlu'r Canmlwyddiant

Ar yr union amser y mae'r Eco yma yn cael ei roi at ei gilydd mae'r dathliadau mawr yn cychwyn yn yr ardal. Mae Ysgol Brynrefail yn gant oed!

Eisoed cafwyd arddangosfa hynod ddiddorol o bob math o luniau a chreiriau yn gysylltiedig â hanes yr ysgol. Cafwyd y cinio dathlu hefyd, a chyfle i dros gant a hanner o gyn-ddisgyblion ail gyfarfod ei gilydd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis i rannu llu o atgofion a hanesion.

Bydd Eco'r mis nesaf yn cynnwys nifer o adroddiadau a nifer mwy o luniau yn cofnodi digwyddiadau wythnos y dathlu. Oeddech chi yno? Anfonwch sylwadau neu argraffiadau neu atgofion atom. Byddem yn falch iawn o'u cael i'w rhannu â'r darllenwyr.

Cadw'r Côr mewn Tiwn

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Mae mwy na hanner y flwyddyn wedi mynd heibio a'r côr wedi cynnal 18 o gyngherddau yn ystod y misoedd hynny. Fe gawsom fis o wyliau o'r côr fis Awst, a phawb yn barod iawn am seibiant. Dechreuwyd yn ôl ar 4 Medi yn awyddus iawn i'r ail hanner. Mae gennym 9 o gyngherddau i'w cadw o hyn i ddechrau Rhagfyr, ac mae'n siwr y bydd pethau'n dechrau poethi eto cyn y Nadolig.

Mae aelodau'r côr eisiau diolch yn fawr i'r pwyllgor merched am y modd y bu iddynt

drwy wahanol weithgareddau fynd ati i gasglu digon o arian i gael piano newydd i'r côr. Diolch yn arbennig i Mrs Morfydd Jones, Erw'r Coed am ei rhodd er cof annwyl iawn am ei gŵr, Ieuan Ellis Jones, a fu'n aelod gyda ni.

Mae rhai aelodau wedi ein gadael a diolch iddynt am eu presenoldeb cyson. Mae un neu ddau o rai newydd wedi ymuno â ni hefyd. Croeso iddynt hwythau. Os oes yna rai a fuasai yn barod i ymuno â ni, mae croeso i chwi ddod draw i'r ymarfer bob nos Lun am 7.30 yn y Mynydd Gwefru.



Mrs Liz Griffith; Mrs Mair Williams; Mrs Jean Roberts; Mrs Mair Huws (Arweinyddes); Mrs Catherine Lloyd Williams; Mrs Nora Lloyd; Mrs Hefina Jones (Cyfeilyddes); a Mr Aneurin Jones (Cadeirydd).

ECO'R WYDDFA

RHIF 271
HYDREF 2000

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
(871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

HYDREF 16

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

HYDREF 26

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 16 TACHWEDD 20	HYDREF 26 TACHWEDD 30	LLANBERIS CAEATHRO	Mr Gwilym Evans 872034 Mr Clive James 677438

Llythyr

Prif Wobrau Eisteddfod 2002

Annwyl Gyfaill,
Cynhelir Eisteddfod Genedl-
aethol Urdd Gobaith Cymru
2002 yn Llandudno rhwng 27
Mai - 1 Mehefin.

Erbyn hyn mae'r testunau ar
gyfer y cystadlaethau wedi cael
eu dewis ond mae un dasg
bwysig i'w chyflawni, sef dod o
hyd i gyfranwyr ar gyfer prif
wobrau'r Eisteddfod.

Os hoffech gyfrannu, fel
unigolyn neu fel Cymdeithas,
tuag at yr Eisteddfod trwy
gyflwyno un o'r prif wobrau yna
buaswn yn falch o gael clywed
oddi wrthyfch.

Dylid anfon gair ataf i
Swyddfa'r Urdd, Parc Menai,
Bangor, Gwynedd LL57 4BN
erbyn 31 Rhagfyr, 2000 neu os
ydych am sgwrs bellach, croeso
i chi gysylltu â mi ar y rhif ffôn:
(01248) 672105.

Diolch am gynorthwyo'r
Eisteddfod.

Yn gywir iawn,
Eirian Dulyn Owen
Trefnydd yr Eisteddfod

Galw am Siaradwyr Cymreg

At y Golygydd,
Bwriad CYD a Mentrau Iaith
Cymraeg yw cael nosweithiau
cymdeithasol yn Gymraeg. Ni
ellir gwneud hyn heb
gydweithrediad siaradwyr sy'n
rhugl yn y Gymraeg.

Nid oes angen cymhwyster
academaidd, dim ond
ymroddiad a Chymraeg clir.
Felly os ydych yn teimlo y
gallech gynorthwyo CYD gyda
chefnogaeth ymarferol tuag at
ddysgwyr Cymraeg, cysylltwch
ag Elfyn Williams, 4 Frondeg,
Groeslon, Caernarfon. Rhif ffôn:
(01286) 831715.

Swyddog Cyswllt CYD
Gwynedd, Môn a Chonwy.

**Adroddiadau
a lluniau arbennig
o ddathliadau
Canmlwyddiant
Ysgol Brynrefail
yn y rhifyn
nesaf**

Rysait Diod Afalau

Dyma rysait ar gyfer yr hydref gan Wraig Tŷ yn yr Ardd:

Cynhwysion ar gyfer 6 chwart
o'r ddiad:

3 pwys o afalau coginio;
6 chwart o ddŵr;
2 bwys o siwgwr;
3 lemwn.

Glanhau'r afalau a'u torri'n
chwarteri. Gadael y croen arnynt
a'u rhoi mewn pwced neu badell

fawr. Ychwanegu'r dŵr a'i adael
am wythnos gan roi tro arno bob
dydd. Ar ddiwedd yr wythnos
ychwanegu'r siwgwr a'r lemwn
a'i adael am 2 awr cyn ei hidlo
a'i roi mewn poteli. Bydd yn dda
iawn, a dipyn o gic ynddo ymhen
ychydig ddyddiau, ond gellwch
yrru car yn berffaith ddiogel.

Pwyllgor Ysgolion Sul ac Ieuenctid Henaduriaeth Arfon

SBRI'R YSGOLION SUL

yn Ysgol Brynrefail, Llanrug
Hydref 1, 2000 o 1.30 - 4.30

Cynhelir gweithdai Celf, Cerddoriaeth a Chwaraeon
a Chastell Neidio
Darperir diod oren i bawb

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn
Stâd Cibyn, Caernarfon

Cyfleon Gwirfoddoli

mae'r Cynllun arloesol yma yn edrych am wirfoddolwyr i
gynorthwyo gyda gwaith trin dodrefn ac i
gefnogi a chynorthwyo gweithwyr
gydag anableddau dysgu yn eu gwaith

Cyfle arbennig i seiri coed a thrydanwyr wedi ymddeol,
neu bobl all droi ei llaw at drin dodrefn.

am fwy o fanylion holwch Glyn Mowll,
Rheolwr Cynllun Dodrefn 01286 674 155

www.anturwaunfawr.org



**GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU ...**

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol ★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Gyda saws afal a stwffin ★ Efo salad hefyd os
mewn rholiau dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188**

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeiriwyd cyfarfod mis Medi o'r Cyngor gan Miss Phyllis Ellis.

Hysbyswyd fod Antur Waunfawr yn awyddus i wneud ymholiadau ynglŷn â chael caniatâd i osod biniau ail-gylchu ar y tir gyferbyn â Swyddfa'r Post yng Nghlwt-y-bont. Roedd y Cyngor yn bryderus ynglŷn â'r ffaith mai dim ond ym Methel ac yn Rhiwlas yr oedd cyfleusterau cyffelyb drwy'r plwy, o gofio fod plwy Llanddeiniolen yn un o'r plwyfi gwledig mwyaf yng Nghymru. Os gall unrhyw un awgrymu lleoliad i osod biniau ail-gylchu ym Mrynrefail, Deiniolen neu Benisarwaun byddai'r Cyngor yn barod iawn i ystyried gwneud ymholiadau er sicrhau caniatâd i osod biniau ar y safleoedd er lles a hwylustod i'r pentrefi.

Cafwyd gwybodaeth gan Syrfeur y Sir o'r bwriad i ail-ddosbarthu y ffyrdd rhwng Llandygai a Brynrefail. Wedi trafodaeth cytunwyd i bwysu ar gael digon o arwyddion ARAF rhwng Beran a Brynrefail, a hefyd am i'r awdurdodau ystyried cael ffordd 'filter' o ochr Llandygai i bentref Rhiwlas, a

hefyd ar y Groeslon Blaen-cae i Benisarwaun, oddi ar y ffordd B4547.

Hysbyswyd bod y meinciau wedi cael eu gosod ym Mhenisarwaun, Bethel, Llanddeiniolen, Brynrefail a Dinorwig. Bydd y fainc yn Neiniolen yn cael ei gosod ar ochr y ffordd rhwng Fferm Pen Golwg a Rhiwen.

Cytunodd y Cyngor i wrthwynebu'r cais cynllunio i ddefnyddio adeilad Hen Ysgol Deiniolen fel canolfan awyr agored ar gyfer sgwtiaid, y prif reswm am hyn oedd am fod yna ddigon o gymwysterau cyffelyb yn y gymdogaeth eisoes.

Roedd y Cyngor wedi derbyn nifer o gwynion yn ddiweddar ynglŷn â'r fandaleiddio ger adeilad y Llyfrgell yn Neiniolen.

HYDREF 14 fydd y dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau am roddion. **Ni ellir ystyried unrhyw gais am rodd oni dderbynnir mantolen ariannol llawn a chywir gyda'r cais.**

Arddangosfa'r Canmlwyddiant



Rhai o'r dyrfa niferus a ddaeth i weld yr arddangosfa yn Ysgol Brynrefail.

Teyrnged i'r diweddar Meirion Hughes gan ei gyfaill Geraint Williams, Penisarwaun

Cynhaliwyd cynhebrwng Meirion Hughes (Mims) Cwrs Golff Tyddyn Mawr, Llanrug a chynt o 4 Glanywern, Manod, Blaenau Ffestiniog yn Amlogfa Bangor ar Orffennaf 13. Roedd yn frawd annwyl i Betty (Waverley) ac ewythr caredig i Nigel a Mark.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Wayne Hughes a thalwyd teyrnged iddo gan ei nai Mark a'i ffrind Geraint Williams. Roedd yr amlogfa yn llawn, a oedd yn arwydd clir o boblogrwydd Meirion.

Roedd Meirion yn hoff iawn o wahanol fathau o chwaraeon, fel sboncen, badminton ac, yn ei ddyddiau cynnar ym Mlaenau Ffestiniog, roedd yn disgleirio fel chwaraewr pêl-droed.

Gadawodd Blaenau yn ŵr ifanc i fynychu coleg ym Manceinion ac aeth ymlaen i weithio fel swyddog iechyd yr

amgylchedd ym Mryste, Richmond, Penfro, Wrecsam, Aberystwyth a Chaernarfon.

Byddai yn mwynhau canu a gwelwyd ef ar lwyfanau llawer eisteddfod yn canu penillion gyda'i gefnder, John Llywelyn.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf gweithiodd yn galed ar ddatblygu cwrs golff ar dir ei fferm, Tyddyn Mawr. Dyluniodd y cwrs gan ymgymryd â llawer o'r gwaith llafur caled ei hun. Er nad yw y cwrs wedi ei gwblhau llwyddodd Meirion i ddenu diddordeb lleol ac ambell i dwristiad i chwarae yno.

Nod ei gwrs golff oedd denu pawb i chwarae'r gêm. Roedd ei frwdfrydedd a'i garedigrwydd yn amlwg wrth iddo ddarparu peli, offer a hyd yn oed gwersi yn rhad ac am ddim. Mae llawer o chwaraewyr golff yr ardal yn ddyledus i Meirion am y cyfle a gafwyd ganddo i fwynhau golff.

Mae'r golled yn enfawr, nid yn unig i'w deulu a'i ffrindiau ond hefyd i'r byd golff lleol. Bydd hiraeth mawr am ei gymeriad unigryw.

Mikado ym Mhenisarwaun



Elen Jones, Anest Eifion, Judith Harding a Janice Jones yn mwynhau'r carnifal.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffoniwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC

WINDOWS



Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am goeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

O SIAMBAR (Gabin) SELWYN

Mae 'na amryw wedi dweud wrtha i — 'O, faswn i byth yn mynd ar fordaith. No we. Dwi'n mynd yn sâl môr wrth groesi Bont Borth.'

Iawn, mi fedra i ddeall hynny. Dw inna wedi cael rhyw bwl o sâl môr fwy nag unwaith, ond yr unig dro y bwm i'n sâl môr go iawn oedd wrth fynd rownd Sir Fôn i wneud eitem deledu i HTV, flynyddoedd yn ôl bellach, hefo fy nghyfaill Gareth Owen, y gŵr camera. Ond, rwy'n prysuro i ddeud mai nid y môr oedd yn gyfrifol am y salwch arbennig hwnnw. Dwi'n credu i mi sôn am yr antur honno yn y golofn hon rai blynyddoedd yn ôl. Na, torri ein syched yn y Liverpool Arms yn y Borth fuo Gareth a minnau cyn codi angor, a doedd derbyn gwahoddiad y Capten i gyd-fwyta ag o ddim yn help i'n stumogau ni. Atomfa'r Wylfa oedd yr adeilad o bwys cynta i ni ei weld ar y fordaith anturus honno, er fod Biwmares, Penmon, Ynys Seiriol a sawl lle arall ar y sgript wreiddiol.

Ond, rhaid i mi gyfadde dwi'n hoffi mynd ar fordeithiau. Unwaith rydach chi yn eich cabin, yna rydach chi'n hwylio o un porthladd i'r llall mewn gwesty moethus symudol.

Mae 'na ryw wefr arbennig i'w deimlo wrth groesi'r Iwerydd a gweld dim ond 'hen linell bell nad yw'n bod — hen derfyn nad yw'n darfod,' am ddyddiau. Dim hyd yn oed yr un llong ar wyneb y cefnfor, na'r un awyren yn yr awyr — dim ond fy 'llong fach i' yn hawlio'r môr mawr agored.

Ydi mae unigrwydd y môr yn dychryn un, ac mae ei fawredd eang yn sobreiddio un. 'Water, water everywhere and not a drop to drink'.

Ond 'boring' meddech — gweld dim ond dŵr am ddyddiau

lawer. O na, mae bywyd ar long bleser yn fywyd prysur. Mae 'na ddigon i'w wncud, a gormod i'w fwyta.

Fy hoff long ydi'r *Black Watch* — tua 28,000 o dunelli — dim rhy fawr ac nid yn rhy fach. Braidd yn fach ydi ei chwaer long, y *Black Prince*, ac mae Bae blin Biscay yn dueddol o gael dipyn o sbort am ei phen pan fydd o'n dangos ei ddannedd.

Mi fydda i'n codi'n gynnar ac, os bydd y tywydd yn ffafriol, mi gerdda i rownd dec 7 y *Black Watch* sawl tro cyn brecwast (mae pum gwaith rownd y dec yn filltir.)

Mae 'na amrywiol bethau i'ch diddori drwy'r dydd — gemau, ffilmiau, llyfrgell, cyrsiau a darlithoedd. Y darlithydd gwadd ar y fordaith ola y bwm arni i'r North Cape oedd Syr Bernard Ingham, cyn ysgrifennydd y Wasg i Mrs Thatcher. 'Boring' meddech. O na — gwledd o ddarlithoedd, a theatr y llong yn orlawn i wrando ar y gŵr talentog yn traethu yn llawn hiwmor am ei ddyddiau yn gwasanaethu yr 'Hen Wyddeles'.

Bob nos hefyd ceir sioe liwgar sy'n cynnwys dawnswyr, comediwyr a chantorion enwog. Os am olygfeydd, y fordaith orau ydi i'r North Cape (top Norwy) ble cewch chi'r cyfle i hwylio drwy nifer o ffiords, a chyfle i fwynhau yr haul am hanner nos. Mordaith ddiddorol ydi i brif ddinasoedd Llychlyn, a galw yn Oslo, Stockholm, Helsinki, Copenhagen, Tallin ac, wrth gws, St Petersburg yn Rwsia.

Mae 'na ddigon o gyfle i chi hefyd gael tripiâu o gwmpas y

dinasoedd hyn. Ym mis Mehefin eleni roedd y *Black Watch* yn llithro'n araf tua'r lanfa yn Fflam (Norwy) a be welwn i o'r llong ond bys Arfonfa yn y maes parcio. O ydi, os ydi'r môr yn fawr ma'r hen fyd ma'n fach iawn.

Dwi'n hoffi gweld y môr yn dangos ychydig o'i ddannedd (dim gormod). Dwi'n hoffi gweld y tonnau yn 'woblio' fel rhyw jeli mawr. Cofiwch, dwi wedi croesi Bae Biscay fwy nag unwaith a'r môr cyn llyfned â Llyn Llanberis. Dwi wedi profi ei dymer o hefyd, ac wedi mwynhau'r profiad.

Mae'n debyg y caf brofi moroedd go wyllt wth hwylio Rownd yr Horn, ond dwi'n edrych ymlaen yn fawr at gael hwylio o Santiago, drwy ffiords Chile a rownd y trwyn a roes ysbrydoliaeth i Seimon B. Jones, un o Fois y Cilie, gyfansoddi ei

bryddest goronog yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, mor bell yn ôl a 1933. Ond, mae'n debyg gen i mai uchafbwynt y fordaith fydd cael y cyfle i roi troed ar dir y Wladfa. Byddwn, mi fyddwn yn ymweld ag Ynysoedd y Malfinas hefyd. Ydach chi awydd mentro hefo ni? Cychwyn o Gaernarfon ac yn ôl i ddrws eich tŷ.

* * *

Oes gan rywun o ddarllenwyr yr Eco gopi o Bryddest Goronog Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933?

Os oes, tybed a gawn i olwg arni, i mi gael rhyw syniad beth i'w ddisgwyl wrth fynd Rownd yr Horn. Byddwn yn dra diolchgar.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI**
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrws
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Eurun (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**EMYR
JONES**

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616



Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



MOT

Spec



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

Un funud fach ...

'RHEDWCH I ENNILL'

Fedrwch chi ddim peidio edmygu ymroddiad y miloedd sydd wedi cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd yn Awstralia dros y pythefnos diwethaf. Mae'n nhw wedi bod wrthi'n ymarfer ers blyneddau er mwyn cyrraedd y safon ucha posib yn eu priod gamp. Ac wedi'r holl baratoi a'r chwysu daeth llwyddiant rhyfeddol i ambell un. Pwy all anghofio gorchesst Steve Redgrave yn cipio ei bumed medal aur? Ond siom gafodd eraill, a neb mwy felly na Colin Jackson oedd yn bumed yn ei ras yn Sydney. Roedd ambell un yn fodlon ar gael bod yno yn y lle cyntaf, fel y gŵr a ddysgodd nofio ddechrau'r flwyddyn a nofio yn yr Olympics er na welsai bwl nofio maint llawn cyn cyrraedd Sydney.

Buom ninnau'n llawenhau efo'r enillwyr ac yn cydymdeimlo hefo'r rhai a gafodd eu siomi. Roedd yn drist gweld breuddwydion yn cael eu chwalu wrth i rai o'r athletwyr gael eu curo. Ambell dro roedd y busnas chwaraeon yma yn edrych mor greulon, a byddem wedi hoffi gweld pawb yn cael medal. Ond wrth gwrs, fedr pawb ddim ennill; ac fel y dywed un sylwebydd profiadol wrthym, 'Oni wyddoch am y rhai sy'n rhedeg mewn ras, eu bod i gyd yn rhedeg, ond mai un sy'n derbyn y wobwr.' Un enillydd sydd ym mhob ras, ac mae gan y sylwebydd hwnnw gyngor syml i bob athletwr, 'Rhedwch i ennill.'

Nid Steve Cram na Roger Black, na hyd yn oed David Coleman biau'r geiriau hyn. Nid un o'r hyfforddwyr sydd mor bwysig i'r athletwyr Olympaidd biau'r cyngor. Yr Apostol Paul pia fo. Roedd o'n gwybod am ymroddiad a dyfalbarhad athletwyr ei gyfnod o. Ac mi welodd y byddai'n beth da i Gristnogion ei dydd fod yr un mor ymroddgar wrth ddilyn yr Arglwydd Iesu Grist yn eu bywyd bob dydd. Os oedd y dorch o flodau a enillai'r rhedwr yn werth ymdrechu amdani mynnai Paul bod y wobwr sy'n disgwyl y Cristion gymaint mwy gwerthfawr. Ac yn wahanol i'r Olympics lle nad oes ond un enillydd, bydd pawb sy'n dilyn yr Iesu'n ffyddlon yn derbyn y wobwr honno.

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch ein
Hysbysebwyrr

Ar ben arall i'r lein

Os wyf wedi dysgu rhywbeth dros y blyneddau mae un peth yn amlwg a hynny yw bod yna andros o waith i geisio cadw pysgotwyr yn hapus. Y tymor yma fel enghraifft, mae Afon Llyfni wedi 'sgota yn well ar gyfartaledd nag unrhyw afon yng Nghymru, a bosib y buasai'n werth mentro rhyw ychydig o arian nad oes yr un dros Glawdd Offa chwaith wedi cael cystal rhediad o sewin. Y trymaf y clywais amdano wedi ei ddal oedd un o 6 phwys i Leon Masterson o Dal-y-sarn. Yn ystod tymor 1998 gwelwyd dros 1300 ac yn ystod 1999 daeth dros 800 i'r rhwyd. Yr amcan am eleni yw mai dyma y tymor gorau ers dros 12 mlynedd.

Dros y blyneddau hefyd, er bod y nifer o eogiaid wedi dirywio ym mhob afon yn y wlad mae nifer y Llyfni yn dal yn hynod o wastad gyda chyfartaledd o 45 dros y 10 mlynedd diwethaf. Y mwyaf hyd yn hyn y tymor yma yn ôl y sôn yw un o 9 pwys 8 owns i R. Rowlands o Waunfawr. Clywais hefyd fod T.J. Thomas o Nantlle wedi cael un tua 'run pwysau. Dyma'r eog cyntaf iddo weld erioe d meddai Norman Dooley. 'Sgwn i a ydi o yn deud y gwir.

'Be mae pawb yn cwyno amdano' medde chi. Gorfod teithio i ardal Pontllyfni, Pen-y-groes a Nantlle i gael 'sgota am fod y Seiont druan yn dal i fod ddim rhyw estra. Wel, mae'r arwyddion fod y gwaith caled o guro drysau'r awdurdodau dros y blyneddau yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae dŵr Padarn wedi clirio, hawdd yw gweld y gro ar y gwlâu magu ym Mhen Llyn wedi clirio o'r tyfiant brown oedd yn mygu popeth. Y tymor yma, am y tro cyntaf ers blyneddau, mae'r afon yn llawn o frithyll bach ac eleni am yr ail flwyddyn yn olynol roedd y nifer o sils a aeth i'r môr yn ardderchog.

Beth am y dal? A oes rhyw oleuni yma? Wel, mae'r nifer o sewin a ddaeth i'r afon wedi cynyddu. Y mwyaf a gefais i fy hun oedd 4 pwys ond clywais am

nifer rhwng 2 a 3 phwys wedi dod o byllau Crawia, ond i lawr yn llyn Garnage a Glan Gwna mae'r nifer mwyaf i'w gweld. Am ryw reswm nid ydynt wedi dod mewn nifer fawr i ardal Llanrug, ond mae gwelliant yma. Eleni hefyd mae cynnydd yn nifer yr eog ar 1999.

Mae Stephen Carr wedi cael tri, y mwyaf yn 8 bwys. 'Sgwn i a yw am gael un mwy na'i frawd mawr, ond mae James yn ceisio dal i fyny gan ei fod wedi cael un am 6 phwys. Mae'n bleser deall hefyd fod rhai wedi cael eu dal â phlun, dyma hogia'r enwair fawr sydd wedi sgorio: Bert Japheth, Caernarfon — un 5 pwys. Clywais ei fod wedi rhoi y 'sgodyn yma i gyfaill oedd heb weld eog ers blyneddau, ond trwy ragluniaeth fe gafodd un ei hun wedyn. Efallai fod Bert wedi cael ei 'sgodyn yn ôl. Hefyd Norman Bans, Caernarfon wedi cael dau yr un diwrnod o Glan Gwna: un yn 7 pwys a'r llall yn 4 pwys. A Dr. Williams: un am 7 pwys yn Crawia.

Clywais hefyd fod Norman Dooley, Caernarfon wedi glanio tri, eto o gyfeiriad Glan Gwna, y rhain eto rhwng 6 a 7 bwys. Gyda'r glaw trwm yn ddiweddar mae'r rhagolygon yn ardderchog gydag adroddiadau am nifer dda o eogiaid yn dangos yn y Fenai, ger Traeth Bach. O'r diwedd mae pethau ar dro am wella o ddifri.

Mae'r clwb wedi cael llawer o ganmoliaeth am y gwaith twtio sy'n mynd ymlaen ym Mhen

Llyn, ond rhaid peidio anghofio mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am y gwaith adeiladu, a chymorth ariannol a gafwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd sydd yn talu am y gwaith o ail-atgyweirio'r jeti cychod yno. Stwff drud yw'r coed *greenheart* angenrheidiol. Mae'n bechod nad yw pawb yn gweld gwerth mewn ceisio gwella safon ein hamgylchedd. Mae rhywrai yn barod yn ceisio tynnu cerrig oddi ar y clawdd, a beth am hyn, maent hefyd yn crafu'r sment rhwng y cerrig mawr ar y bont ei hun, gyda'r bwriad o'u gwthio i mewn i'r llyn. Mae eisiau gras mewn difri calon.

Beth am y torgoch? Wel, nid yw'r rhain wedi bod yn rhy gydweithredol y tymor yma, gydag ychydig iawn yn dod i'r rhwyd. Does dim ateb i hyn, ond i galonogi rhywfaint ar hogia Llanbêr, yn ystod Rhagfyr 1999 roeddwn yn bresenol pan oedd arolwg ar y stoc gladdu yn cael ei gwneud yn Afon Bala, coeliwch neu beidio mae yna ddigon o bysgod yna.

Un peth arall cyn cloi, bydd gwaith monitro yn cael ei gario allan yn ystod y misoedd nesaf ar symudiad pysgod dros y llwybr ym mhen y twnel yn Nant Peris. Gobeithio yn wir y cawn weld y rhwystr yma yn cael ei orchfygu o'r diwedd, mae'r sefyllfa fel mae yn bresenol yn hollol annerbyniol, faint o niwed mae'r peth yma wedi ei wneud dros yr ugain mlynedd diwethaf tybed.

H.P. Hughes

Atodiad dathlu

100 mlwyddiant Ysgol Brynrefail
yn y rhifyn nesaf.

COFIWCH BRYNU COPI!



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor

9-7pm

9-5pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

CHWILOTA

Dydd Treftadaeth Ewropeaidd



Yn ogystal a bod yn ddathliad cenedlaethol Owain Glyndŵr, roedd pen-wythnos canol Medi hefyd yn ddyddiau traftadaeth Ewropeaidd. Dyma ddathliad mwyaf cyfandir Ewrop o adeiladau yn yr amgylchedd, ac mae'n rhoi cyfle i bobl ymweld â safleoedd ac adeiladau nad ydynt fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Trefnwyd y gweithgareddau yng Nghymru gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, yn cael eu cefnogi gan CADW, a'u hariannu'n rhannol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Hen Blasdy'r Faenol

Oherwydd i mi gael cyfle i ymweld â Pharc y Faenol beth amser yn ôl ar achlysur sefydlu cwmni Faenol Cyf., sy'n rhoi cyfle i bobl ddysgu crefftau traddodiadol, roeddwn yn awyddus i ddychwelyd yno i weld pa gynnydd a wnaethpwyd ers hynny. Gwyddwn hefyd fod darganfyddiadau wedi eu gwneud ynglŷn â'r Hen Blas.

y safle erbyn dechrau'r bymthegfed ganrif, ac mai o gwmpas neuadd wreiddiol y tŷ hwnnw y datblygodd y tŷ 'Elisabethaidd' sy'n sefyll heddiw.

Roedd traddodiad ymhlith gweithwyr y stad fod ysbryd merch yn yr Hen Blas, ac yn ystod y gwaith cloddio o fewn y tŷ, daethpwyd ar draws esgryn merch wedi eu claddu



Hen Blas y Faenol cyn dechrau'r gwaith adfer arno.

Credid fod yr Hen Blas yn dyddio o oes Elisabeth, ac yn gartref i'r teulu gwreiddiol — Williamsiaid Cochwillan a'r Penrhyn. Yn dilyn marwolaeth yr olafo'r llinach yn ddi-etifedd, cyflwynwyd y stad i'r Goron, a'i throsglwyddo yn 1723 i John Smith, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a Changhellor y Trysorlys. Yn 1764 fe'i rhoddwyd i Charles Assheton o Swydd Caer, a mabwysiadodd yntau'r cyfenw Smith. Drwy briodasau diweddarach ychwanegwyd Duff a Vivian i enw deilydd y stad.

Adeiladwyd y Plas Newydd yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, a dilewyd pob olion o deulu'r Williamsiaid o'r Hen Blas, gan gynnwys arfbeisiau'r teulu. Defnyddiwyd yr Hen Blas yn dŷ ar gyfer staff yr ysweniaid newydd.

Bellach, mae'r Hen Blas yn cael ei adfer yn araf, ac yn y broses, darganfuwyd sylfeini cynnar yn ei selerydd. Mae corff y tŷ yn sefyll ar y rheini, gydag ychwanegiadau diweddarach yn peri i rywun dybio mai tŷ Oes Elisabeth ydoedd. Credir erbyn hyn fod y tŷ gwreiddiol yn llawer hŷn, a'i fod yn sefyll ar safle hen amddiffynfa Gymreig oedd yn rheoli trafnidiaeth ar draws y Fenai i Fôn. O bosibl i'r amddiffynfa hon gael ei chwalu i'r llawr yn ystod cyfnod adeiladu cestyll Edward — anhebyg y byddai'r Norman wdi caniatáu i amddiffynfa Gymreig sefyll mewn man mor bwysig rhwng cestyll Biwmares a Chaernarfon! Efallai i ganrif a hanner fynd heibio cyn i rai o gyn-deidiau'r Williamsiaid adeiladu tŷ annedd ar yr union safle. Yn sicr, roedd y tŷ cerrig yn bod ar

dan risiau cerrig. Nid oedd penglog gyda'r esgryn.

Mae gwaith ymchwil pellach i'r Hen Blas ac i deulu gwreiddiol Stad y Faenol yn cael ei wneud ar hyn o bryd, a diddorol fydd gweld canlyniadau'r gwaith.

Cystadleuaeth Holiti a Naddu

Er mai prin bythefnos oedd rhwng ymddangosiad rhifyn diwethaf yr 'Eco' a dyddiad anfon cynnyrch y rhifyn hwn i'r Wasg, derbynias nifer o alwadau ynglŷn â chystadlaethau holiti a naddu llechi. Mae'n ymddangos nad ar y Ddôl yn Llanberis yn unig y cynhelid hwy. Cefais hanesion am gystadlaethau tebyg yng Nghwm-y-glo ac yng Nghaernarfon. Mae'n ymddangos eu bod yn boblogaidd iawn yn ystod y pumdegau. Gobeithio y bydd mwy o wybodaeth wedi ei gasglu erbyn y rhifyn nesaf.

Postmon ac Emynydd

Ddaeth neb i gysylltiad ynglŷn â Meigant — efallai fod y cof amdano wedi darfod; ond yn od iawn, deuthum ar draws englyn o'i eiddo wedi ei ysgrifennu er cof am ei rieni:

Er ing dwfn yr angau du — O! y balm
I boen fawr eu claddu
A rydd cof o'r frawddeg gu:
'Hwy hunasant yn Iesu'.

Atgofion am Gwm-y-glo

Gan Mr Eirwyn Williams, Llwyncoed y cefais y penillion canlynol, a'r llun hefyd o ysgol Cwm-y-glo yn y 1920'au. Does dim dyddiad ar gyfer y penillion, ond fe'u hysgrifennwyd gan O.H. Jones, Astoria, Efrog Newydd, brodor o'r Cwm, a'u hanfon i Harry Thomas,

Tŷ Capel, Cwm-y-glo. Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'r penillion yw'r ffaith eu bod yn enwi gwahanol greigiau a phyllau yn yr ardal. Sgwn i faint o drigolion Cwm sy'n adnabod y llefydd a enwir, a faint o blant y pentref sy'n parhau i chwarae ynddynt?

Atgofion Mebyd

Wyt ti'n cofio'r adeg dedwydd Gynt pan oeddem ni yn blant Yn cyd-chwarae'n ysgafn galon — Rhedeg dros bob bryn a phant? O! mae'r amser dedwydd hwnnw Eto'n fyw gerbron fy ngho Pan yn myned gyda'n gilydd I hen ysgol Cwm-y-glo.

Wyt ti'n cofio fel y byddem Yn pysgota ar lan y llyn, Tra'r poeth natur ar ei gorau Yn prydferthu pant a bryn? 'Rhen gwch mawr yn rhwygo'r tonau,

Ninnaun rhwyfo gyda'r gwynt. O! mae hiraeth ar fy nghalon Am yr amser dedwydd gynt.

Mynd yn llu i Glogwyn Llwyncoed I fwynhau yr awel iach, Ymddifyrru mewn chwaraeon Ar hen greigiau Pen Bwlch Bach; Mynd ar brydiau i ymdrochi I'r Rhyd Mawr a'r Adwy Ddŵr, Ac ymwisgo 'Nghraig yr Undeb; Pawb yn llon a llawn o stwr.

O! mae hiraeth ar fy nghalon Wrth atgofio'r bechgyn llon; Fel y byddem gyda'n gilydd Ar heol ydd Craig y Don; Dringo i fyny Twll y Gigfran Oedd y gamp gan fawr a mân, Roedd i ni rhyw swyn gyfriniol Yn hen Glogwyn Carreg Frân.

Ar ganllawiau Pont yr Aber Bùm yn treulio llawer awr, Gwrandio murmur lledf yr afon Ar ei thaith o'r llyn i lawr; Ni gawn yno deg olygfa Ar y brynau ar bob llaw, Ar hen Wyddfa fawr, ramantus Welwm yn y pelter draw.

Mae'r hen fryniau tlws a'r llwybrau Yno'n aros megis cynt; Ninnau fu yn llamu drostynt Chwalwyd oll i'r pedwar gwynt; Byw mewn gobaith ydyf heno, Er yn brudd mewn hiraeth trwm Y daw amser caf ddychwelyd I hen bentref bach y Cwm.

Cadair Ysgol Brynrefail

I'r rhai a fu'n ymweld â'r arddangosfa ar y diwrnod agored yn ystod dathlu canmlwyddiant Ysgol Brynrefail, fe sylwch fod nifer o gadeiriau eisteddfodol i'w gweld. Dyma, wrth gwrs, y cadeiriau a enillwyd yn y gwahanol eisteddfodau dros y deugain mlynedd diwethaf. Ond bellach, mae un gadair barhaol yno — sef y gadair a ddefnyddir ar gyfer y seremonïau eu hunain, ac y mae cysylltiadau lleol i honno hefyd. Dyma'r hanes fel y'i hadroddwyd gan y Prifardd Selwyn Griffith:

'Pan oeddwn i yn dechrau dodrefnu'r tŷ â chadeiriau, fe enillais sawl cadair yn eisteddfodau lleol Nant Padarn a Gorffwysfa, Llanberis. Un o'r cadeiriau a enillais yn Eisteddfod Gorffwysfa ydi'r gadair yn Ysgol Brynrefail heddiw. Cysylltiad lleol arall â'r gadair honno yw'r ffaith mai'r beirniad yn y gystadleuaeth oedd y diweddar Harri Gwynn, a oedd yn byw yn Llanrug ar y pryd.

Gan fy mod yn gweithio i'r hen Gyngor Gwyrfai ar y pryd, a'r tŷ ym Methel yn gor-lewri â chadeiriau eisteddfodol, fe roddais y gadair yn rhodd i'r Cyngor, ac fe'i defnyddiwyd fel Cadair y Cadeirydd. Pan ddaeth dyddiau Cyngor Gwyrfai i ben, fe'i cynigiais i Ysgol Brynrefail, ac fe'i derbyniwyd yn ddiolchgar gan y prifathro ar y pryd, Mr Elfyn Thomas.'

Tybed pa gadair a ddefnyddid yn y seremonïau cyn hynny? A oedd cadair arbennig yn cael ei benthg ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol, ynteu a oedd cadair gyffredin yn cael ei defnyddio? Oes rhywun o'r rhai gafodd eu cadeirio cyn 1974 yn cofio ar sut fath o gadair yr oeddent yn eistedd?

Gyda diolch i bawb am gysylltu â mi yn ystod y misoedd diwethaf, yn enwedig y rhai a fu mor garedig â chynnig benthg defnydd ar gyfer yr arddangosfa yn Ysgol Brynrefail. Mawr obeithiaf erbyn ichwi ddarllen y rhifyn hwn y bydd pob eitem wedi ei dychwelyd yn ddiogel.

Y mis nesaf, lluniau o Gwmni Drama Brynrefail — y pentref, nid yr ysgol! Oes rhywun â gwybodaeth am weithgareddau'r cwmni? Llun hefyd o ddosbarth ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun.



Llun dosbarth yn Ysgol Cwm-y-glo rywbryd yn ystod y 20'au.

All rhywun gynnig enwau?

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol: Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Sian a Mark Roberts, 22 Nant y Glyn, Llanrug ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu dymuniadau da a'u haelioni ar achlysur eu priodas.

PRIODAS. Yng Nghapel Hebron, Llangwnadl ddydd Sadwrn, Medi 2, 2000 priodwyd Aled Lewis Jones, mab Elwyn a Gwyneth Jones, Fachell, Llanddeiniolen a Llinos Griffith, merch John a Megan Griffith, Ty'n Rhos, Llangwnadl. Gwasanaethwyd gan y Parch Dewi T. Morris a'r organyddes oedd Mrs Gwenda Roberts.

Y forwyn oedd Manon Griffith (chwaer y briodfab) a'r gwas oedd Eurwyn Jones (ffrind y priodfab). Yr ystlyswyr oedd Rhys Tudur Jones (dyweddi chwaer y briodferch) a Dafydd Tomos Jones (brawd y priodfab).

Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r George IV, Cricieth a threuliwyd y mis mël yn Iwerddon.

Byddant yn ymgartrefu yn Fachell, Llanddeiniolen. Mae'r priodfab yn ffermio a'r briodferch yn gweithio yn S4C yng Nghaernarfon.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher, Medi 13 pan gafwyd Sioe Ffasiynau o ddillad o Siop Mackay's Bangor. Roedd aelodau'r pwyllgor yn arddangos y dillad gyda help rhai o blant y pentref.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Glenys Griffiths, y llywydd, a chydymdeimlodd â'r rhai oedd wedi cael profedigaeth yn ystod yr haf; llongyfarchodd Gwyneth Price am fod yn nain unwaith eto; dymunwyd yn dda i'r rhai sydd wedi priodi yn ddiweddar; dymunwyd y gorau i Gwyneth ac Elwyn ar eu priodas.

Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc yr ardal ar eu llwyddiant mewn gwahanol arholiadau.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher 11 Hydref pan fydd Mr Bryn Griffiths hefo ni yn sôn am lestri 'Gaudy Welsh'.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 16 Medi yn y Cysegr priodwyd Ruth Wyn Parry, Wilnor a Nicholas Peter o Fanceinion, gweinyddwyd y briodas gan y Parch W.R. Williams.

Cynhaliwyd y wledd yng ngwesty'r Fictoria Llanberis. Pob lwc a dymuniadau da i'r ddau i'r dyfodol.

CYDYMDEIMLO. Dydd Llun, 11 Medi bu farw Mr William Pritchard Williams (Gwil Rhos), 7 Bro Rhos. Estynnir pob cydymdeimlad i Eiriona a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB 200. Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Awst oedd: June Owen, Cefn Ffrwd (110); Margaret Williams, Llanddwyn (82); Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Rhian Hughes, Erddig (86); Olga Davies, 10 Tan-y-cae (172); Jane Elis, Glennydd, Y Ddôl (198); Wyn Morris, Fachell (136); Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208); Gwynfor Morris, Treflys (196); Beti Owen, Crud yr Awel (76).

Y GYMDEITHAS. Bydd tymor y Gymdeithas yn agor nos Fawrth, 17 Hydref gyda noson yng nghwmni Parti Myra o'r Waunfawr. Croesewir aelodau hen a newydd i'r noson a gynhelir yn Festri Cysegr am 7.15.

Llanddeiniolen

DYMUNA Aled a Llinos, Fachell, Llanddeiniolen ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Y plant bach newydd a gychwynnodd yn yr ysgol ddechrau Medi.

CAPEL Y TABERNACL. Dymuna swyddogion ac aelodau'r capel ddiolch yn ddiffuant i Mr Eric Jones, Penisarwaun a Mr Norman Jones, Llanrug am eu gwaith yn addurno tu mewn a thu allan yr eglwys. Hefyd i Martin Rowlands, Waunfawr am osod y carped.

Yn ystod mis Hydref, yn ogystal ac oedfaon y Sul bydd gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos. Hefyd, nos Lun, Hydref 16 am 7.30 cynhelir Cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa a Chôr Meibion Dyffryn Peris a'r elw tuag at Eglwys Sant Gabriel. Croeso cynnes i bawb.

MARWOLAETH. Yn dawel dydd Gwener, Awst 25, 2000 bu farw Mr David W. Roberts (Dafydd Arvon) yn 63 mlwydd oed. Yn enedigol o'r Cwm bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys Sant Gabriel lle bu ei angladd dydd Iau, Awst 31, 2000 gyda'r Parch Phillip Hughes a Mr Derek Jones yn gwasanaethu a Mr Gareth Jones wrth yr organ. Rhoddwyd i

orffwyd ym mynwent Llanrug.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Doreen Roberts; y plant, Derek, Dewi, Delyth ac Arfon; ei wyrion Kenny, Sion a Dafydd, a'i chwaer a'i frodyr yn eu colled a'u hiraeth.

DIOLCH. Dymuna Mrs Margaret Williams, Bryn ddiolch yn ddiffuant i bawb am y llu cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 50 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Leslie Orritt, Morannedd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Joyce Jones, Bod Elan ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Eryri.

DIOLCH. Dymuna Cynthia a Paul ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

DYMUNA Hilda a Les, Morannedd ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253



STRYD FAWR LLANBERIS

21 Hydref-
11 Tachwedd

Eisteddfod y Wladfa, Patagonia ac ymweld â llefydd o ddiddordeb hanesyddol yng nghwmni Penri Jones (awdur 'Jabas'). Dim ond lle i 4 ar ôl.

Manylion pellach am ein holl deithiau
(01286) 872777

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor sātŵ diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd Noson Goffi nos lau, Medi 7. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson er gwaetha'r tywydd garw. Diolch i Bronwen a Carolyn am wasanaethu yn y gegin. Diolchir i'r Eco ac Ysgol Brynrefail am ganiatad i ddefnyddio lluniau'r Eisteddfod ers 1980. Cafodd pawb hwyl a phleser yn cysylltu'r wynebâu yn y lluniau. Bydd yr arddangosfa yn cael ei harddangos eto yn yr Eisteddfod, nos Wener, Hydref 20 am 6 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Mae'r rhaglen a'r rhestr testunau ar gael yn awr yn Siop Gron, Blodau Racca neu gan yr ysgrifenyddes, Elizabeth Woodcock, Tŷ Gwyn, Waun. Ffôn: 870121.

URDD ADRAN BENTREF. Cofiwch y bydd yr Adran yn ail-gychwyn wedi gwylaiu'r hanner tymor. Mae rhaglen ddifyr ac amrywiol eto eleni.

CWRS DYSGU AM OES YN Y GYMUNED. Cynhelir cwrs 10 wythnos o 7-9 o'r gloch bob nos Lun yn y Neuadd Gymuned yn dechrau ar Fedi 18. Y cwrs fydd 'Hanes Lleol' yng ngofal Dafydd Whiteside Thomas. Pris £35 i rai sydd mewn gwaith llawn ac am ddim i bensiynwyr a rhai mewn gwaith hanner amser. Cynhelir y sesiwn nesaf nos Lun, Hydref 2. Croeso cynnes i bawb.

GWELLHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella i gyd.

PWYLLGOR NEUADD. Daeth nifer fawr o blant ac oedolion ar y 'Daith Gerdded Llwybrau' nos Wener, Medi 8. Bu'r tywydd yn sych a mwynhaodd pawb y daith a luniwyd gan Leslie Larsen. Roedd y plant wrth eu bodd yn chwilio am y cliwiau ac fe welsant ryfeddodau natur megis pâr o betris, hwch a'i phorchell ynghyd â sylwi ar enwau diddorol ar dai a ffermydd yr ardal. Bu'n noson gymdeithasol ac addysgiadol dros ben. Gorffenwyd y gweithgaredd hefo paned a bisgedi wedi'i pharatoi gan Dafydd a Myrddin. Diolch hogia!

OCSIWN ADDEWIDION. Cynhelir yr Ocsiwn nos Wener, Tachwedd 17 yn y Neuadd Gymuned gydag Arwel Jones, ac efallai Dafydd Du

fel arwerthwyr. Os dymuna unrhyw un gyfrannu addewid yn cysyllter ag aelodau'r Pwyllgor neu'r Ysgrifennydd ar 872407. Tynnwyd Clwb Medi a'r enillwyr oedd: 1. Richard Parry, Tawelfa; 2. Wendy Thomas, 4 Bryntirion; 3. Alwyn Hughes, Aljen. **YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA.** Croesawyd dau aelod ifanc iawn i'r Ysgol Sul ar Fedi 10, sef Cai a Nia, ac mae'r ddau wedi hen ymgartrefu erbyn hyn. Fore Sul, Medi 17 aeth nifer o'r plant i festri Capel Ebenezer, Deiniolen i gynnal 'Darllen Distaw Noddedig', sef darllen unrhyw lyfr crefyddol o'u dewis er budd addysg Katalau Singaro, y ferch fach fabwysiedig o Kenya. Derbyniwyd llythyr ganddi yn diolch am ein cyfraniad hyd yn hyn, ac mae bellach yn gallu ysgrifennu, darllen a mwynhau mathemateg a phynciau eraill. Diolchir i bawb a gefnogodd y plant yn y gweithgaredd hwn gan wneud i'r aelodau deimlo eu bod yn gallu helpu eraill sy'n llai ffodus na hwy.

Pnawn Sul, Hydref 1 o 1.30 - 4.30 bydd cyfle i'r aelodau ymuno ag Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon mewn 'Sbri Ysgolion Sul' yn Ysgol Brynrefail. Bydd gweithgareddau celf, cerddoriaeth, chwaraeon a chastell neidio yno i'w diddori. Byddwn yn cychwyn o'r Ysgol Gymuned am 1.15.

EGLWYS SANTES HELEN.

Enillwyr y Carnifal oedd:

Addurno Het: 1. Mrs M.E. Williams, 2. Mrs Ann Paterson; Addurno Pram: 1. Y Bugail Bach - Eli Thomas; 2. Squa a Squaker - Claire Donnelly; Addurno Beic: 1. Rebecca Alssop; 2. Brenda Lee; 3. Bryn Llewelyn Jones. Unrhyw bâr dan 12: 1. Sali Mali a Jac y Jwc - Jessica a Glesni; 2. Hunchback ac Esmeralda - Rebecca a Sion; 3. Llew y syrcas - Lois Jones a Sion Phillips; Clown y Syrcas - Anest Jones a Gethin Phillips. Unrhyw bâr dros 12: 1. Venus a Serena Williams - Gwenda Jones a Carol Porter; 2. Chowmein - Judith ac Anest Harding; 3. Merched y popcorn - Wendy Phillips a Marina Jones; Dau Lew Tew - Selwyn Griffith, Llanrug a Gwenan Hughes.



Plant y Cylch Ti a Fi Penisarwaun ym Mhili Palas ddiwedd y tymor diwethaf.

CYLCH TI A FI. Ar ddiwedd y tymor diwethaf aeth y Cylch ar ymweliad â Pili Palas ym Mhorthaethwy lle bu'r plant wrth eu bodd yn gweld y glöynod byw lliwgar.

Bu parti ffarwelio â ffrind i'r Cylch, sef Mrs Margaret Williams, Tŷ Capel Cysegr, Bethel (Anti Margaret i'r plant). Roedd Anti Margaret wedi bod yn helpu ers 1993 gyda'r Cylch Meithrin ac wedyn gyda'r Cylch Ti a Fi ym Mhenisarwaun. Mae angen diolch yn fawr iawn i Anti Margaret am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Roedd y deisen wedi ei gwneud yn arbennig i Anti Margaret gan Mrs Rhian Roberts, mam llan. Mae o'n dod i'r cylch bob wythnos gyda'i Nain. Diolch yn fawr i ti, Rhian.

Mae'r Cylch Ti a Fi wedi ail gychwyn ar ôl gwylaiu'r haf ac yn cynnal y gweithgareddau ar brynawn dydd Mawrth yn Neuadd yr Eglwys o 1.15 tan 3.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn bach o dan oed ysgol gyda gofalwr i ddod draw er mwyn cael cymryd rhan yn yr hwyl.

Dan Oed Ysgol. 1. Biker Babe - Hanna Thomas; 2. Ffôn Gymraeg - Maggie Tudur; 3. Shrinking Man - Joe Thomas. Oed Meithrin. 1. Power Ranger - Nathan Huws; 2. Robin Hood - Thomas Evans; Tywysoges + Sgw - Sophie Hughes. Blwyddyn 0. 1. Winnie the Pooh - Katie Lewis; 2. Hunchback - Sion Evans; 3. Sali Mali - Glesni Jones; Fairy - Cala Donnelly; Rala Rwdins - Jessica. Blwyddyn 1 a 2. 1. Yr Ysbryd Glân - Leanne Jones; 2. Little Bo Peep - Ellen Hughes; 3. Eddie Butler - Keirian Hughes. Blwyddyn 3 a 4. 1. Mad professor - Dion Jones; 2. Karate Kid - Kris Havers; 3. Clown - Gethin Phillips; Tas - Llyr Hughes. Blwyddyn 5 a 6. 1. Ring Master - Lois Bryn Jones; 2. Geisha Girl - Anest Eifion; 3. Grand Prix - Luke Hughes.

Dros 15 oed. 1. Y Fam Frenhines - Ann Paterson; 2. Y dyn cryf - John Eifion Jones; 3. Dydd a nos - Roberts Griffiths. Unrhyw Grŵp. 1. Y Syrcas - Teulu John Eifion Jones a theulu David Phillips. 2. Mikado - Ellen Lewis, Judith Harding, Janice Jones, Anest Harding.

Gorau o'r enillwyr: Y Syrcas - Teulu John Eifion Jones a theulu David Phillips.

CYHOEDDIADAU'R EGLWYS. Bydd gwasanaethau'r Eglwys yn dechrau am 10.30 o fore Sul 10 Medi, 2000 ymlaen. Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar Fedi 10. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno.

Cynhaliwyd Cyngor Plwyfol Eglwysig nos lau, Medi 21 am 7 o'r gloch.

Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb a gefnogodd weithgareddau'r wythnos. Diolch hefyd i bawb am y rhoddion a

dderbyniwyd tuag at y raffl, gwobrau, yr Wyl Flodau a'r Arddangosfa.

YSGOL BRYNREFAIL. Oddi wrthym ni i gyd yma, llongyfarchiadau i'r Ysgol ar gyrraedd ei chanmlwyddiant. Ysgol y mae cenedlaethau o blant ac athrawon yn hynod falch o'i chyfraniad i'w haddysg. Bu llwyddiant mawr i'r dathliadau a dymunir pob llwyddiant eto i'r Ysgol arbennig hon i'r dyfodol.

TRIP NADOLIG I LERPWL. Trefnir trip siopa Nadolig ar Ragfyr 8 gan aros noson yng Ngwesty'r Adelphi, Lerpwl. Mae lle o hyd ar y bws. Os oes diddordeb, cysyllter â Jean Jones, 871993.

DIOLCH. Dymuna Eurwyn a Shirley Jones, Camelot ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a rhoddion ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuna Shirley ddiolch am bob arwydd o gyfeillgarwch a charedigrwydd wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

SIALENS GWYLLTIR ALASGA. Dymuna Geraint Williams, Careb, 8 Bryn Eglwys ddiolch yn ddiffuant i bawb o'r pentref a gefnogodd 'Sialens Gwylltir Alasga 2,000' ar ran 'Sense', Cymdeithas Genedlaethol y Byddar-ddall a Rwbela.

Roedd y cyfanswm a gasglwyd yn £3,702.95. Diolch i John Eifion, Siân Gibson, Olwen a Hogia'r Bore am gynnal Noson o Gân hynod o lwyddiannus yng Nghlwb Criced Bethesda.

Roedd ymdeithio yn y gwylltir yn galed dros ben ac yn brofiad unigryw. Bu'r agosatrwydd at fyd natur a cherdded gwlad mor eang yn achos i greu argraff fythgofiadwy. Diolch i bawb am eich caredigrwydd a'ch haelioni.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858



Taith Gerdded Llwybrau Pwyllgor Neuadd Penisarwaun.



Y Syrcas — Teulu John Eifion a theulu David Phillips.

Rhai o'r crefftau o Garnifal Penisarwaun



Trefniant blodau Mrs Lewis.



Decoupage Gwen Roberts.



Coleg Menai — Rhaglen Dychwelyd i Ddysgu

Dosbarth Hanes Lleol, Penisarwaun

Cyfes o 10 darlith ar hanes lleol bro'r 'Eco'
i'w cynnal yn Ysgol Gymuned Penisarwaun
Nosweithiau Llun 7.00 — 9.00

Tiwtor: Dafydd Whiteside Thomas
Am fwy o wybodaeth ffoniwch (01286) 673515

CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7pm
bob Nos FAWRTH a Nos IAU
- * Mae defnyddiau garddio - grobags,
gwrtaih etc mewn stoc.

**bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y ty yn lleol**

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

Quest For A Cure gan Kate Beard

Ym mis Mehefin bŵm i a Rhys Morris yn ddigon ffodus i gael ein dewis i gynrychioli'r ysgol yn 'Quest For a Cure' yn America gyda Sefydliad Cancr yr Ysgyfaint Roy Castle yn Lerpwl. Cawsom y cyfle i fynd i America i fynd a neges peidio ysmegu i bwysigion y byd, i drio dylanwadu ar bobl ifanc i stopio ysmegu ac i ddeall beth yw'r peryglon i iechyd sy'n cael ei achosi gan ysmegu. Bu rhaid i Rhys a finna arwyddo proclamaatiwn sydd hefyd wedi ei arwyddo gan Tony Blair a Bill Clinton i bwysleisio ein teimladau tuag at ysmegu. Bydd y neges yma rwan yn cael ei gyrru i fyny i'r gofod yn y *Space Shuttle* nesaf.

Yn America cawsom y cyfle i gael taith o amgylch y Tŷ Gwyn yn Washington ac mae'n rhaid cyfadda, na, nid gwyn oedd walia'r Tŷ Gwyn ond rhyw fath o *cream*. Hefyd cawsom *reception*

yn y *British Embassy* lle roedd y *British Ambassador* yna i'n cyfarfod. Bu raid i Rhys wneud araith yn y *British Embassy* a'r Tŷ Gwyn.

Yn Florida aethom i'r *Kennedy Space Centre* lle cefais y cyfle i fynd yn agos iawn at y *Space Shuttle* sy'n mynd i'r gofod a chael gweld y *launch pad* a nifer o rocedi. Fan hyn wnes i fwynhau orau.

Ac, wrth gwrs, yn Florida roedd y parciau i gyd. Aethom i *Magic Kingdom* ac *Epcot* lle roedd tân gwyllt anhygoel i'w weld.

Yn wir, roedd y daith yma yn un anhygoel a bythgofiadwy. Bydd gennyf nifer o atgofion melyn o'r daith fydd yn aros hefo fi drwy gydol fy mywyd. Hefyd llawer iawn o ffrindiau newydd a wnaethom ar y daith. Mae'n rhaid diolch i'r ysgol a phawb wnaeth wneud i'r daith yma fod yn bosib i ni.



Rhys a Fi o flaen y Tŷ Gwyn.

Hel i Gael Llyfrau

Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn hel 'tocyns' oddi ar fagiau creision ac o bapurau newydd i gael gwerth o leiaf £250 o lyfrau i'r ysgol.

Hel, torri a chyfrif yr 11,000 tocyn oedd hanes Nia Jones, Celfyn Davies, Samantha Roberts (bl.11), Rhianwen Evans, Michaela Cookson, Donna Davies, Ceri Morris, Sian

Jones (bl.9) ac Amanda Blay (bl.13) yn ogystal â llu eraill.

Noddwyd yr ymgyrch gan Walkers Crisps a phapurau newydd y Sun, Times, Sunday Times a'r News of the World.

Diolch yn fawr iawn i Mrs June Owen (Llyfrgellydd yr ysgol) a Mr Euron Hughes (o'r Adran Saesneg) am ddod a phopeth at ei gilydd.



NEWYDDION O YS

Y Chweched Newydd



Bellach mae disgyblion newydd yn y chweched dosbarth ac, o'r sylwadau a gefais, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau bod yno. Yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio yn annibynnol a chael perthynas wahanol a chyfeillgar gyda'r athrawon, yn ogystal â rhoi esiampl dda i'r disgyblion

iau.

'Dwi wrth fy modd yma, mae wedi bod yn bleser dod yn ôl,' medd Gavin Roberts. 'Mae'r chweched dosbarth yn ffantastig. Y gwersi rhydd yn lot o hwyl a'r athrawon yn llawer mwy cyfeillgar,' medd Nia Porter.

Dosbarth Di-fwg



Ers rhai blynyddoedd bellach mae disgyblion blwyddyn 7 yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Dosbarth Di-fwg. Y syniad yw fod y plant yn sylweddoli peryglon ysmegu ac yn addo i beidio dechrau, neu i roi i fyny.

Braf felly oedd gweld fod dau

ddosbarth, sef 7i a 7s wedi ennill gwobr o £100 ym mis Mehefin. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio er lles y disgyblion gan yr Adran A.B.Ch. Gobeithio yn wir y byddant oll yn cofio'r addewid a wnaethant a chadw'n iach drwy beidio ysmegu.



GOL BRYNREFAIL

Ein Prif Ddisgyblion 2000 - 2001



Kelly Elizabeth Williams, Bethel (Dirprwy); Siân Green, Pontrug ac Elfed Morgan Morris, Deiniolen (Prif ddisgyblion) a Geraint Edwards, Llanddeiniolen (Dirprwy).

Murlun Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Sian Owen, ein hathrawes gelf/arlunio ar ennill grant loteri gwerth £5,000 i'r ysgol i gael artist preswyl yma i wneud murlun i goffau'r canmlwyddiant.

Bydd y plant yn cydweithio gyda'r artist, Nerys Owen o Gaergybi, i ddylunio'r gwaith fydd yn coffau'r ysgol dros y can mlynedd.

Cawn luniau a hanes o sut y byddant yn mynd ymlaen maes o law.

Nofiwr o Fri

Ym mis Awst bu Eifion Williams (Llanrug) yn nofio ym Mhencampwriaeth Prydain yn Coventry. Rydym eisoes wedi hen arfer gyda'i lwyddiannau ond braf oedd ymfalchïo eto.

Daeth yn 3ydd yn y ras 100 metr, dull rhydd a 7fed yn y ras 200 metr, dull rhydd dan 14.

Gyda'r Gemau Olympaidd yn Awstralia yn cynhyrchu sawl seren yn y pwl nofio, braf yw meddwl y bydd Eifion yn profi'r un llwyddiant rhyw ddydd. Da iawn ti a dal ati.

Athrawon Newydd

Wedi ffarwelio â Mr Gareth Hughes Jones ddiwedd tymor yr haf roedd yn bleser croesawu Miss Anwen Guile atom fel athrawes Gerdd. Daw Miss Guile o Benybont ar Ogwr ac fe dreuliodd dair blynedd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera cyn dod atom. Croeso mawr iddi a gobeithio y bydd yn hapus yn ein cwmni.

Croeso hefyd i Mr Gwyn L. Hughes sydd wedi ymuno â'r Adran Dechnoleg dros gyfnod salwch Mr Jack Jones. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

Y Canmlwyddiant!

Mae'n hwrlu bwrli wrth i bawb baratoi ar gyfer y dathlu mawr. Yn wir mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn teimlo eu bod yma ers misoedd yn hytrach nag wythnosau!!

Y plant yn brysur gyda'r Sioe Gerdd, yr Oedfa a'r Cyngerdd a phawb arall yn rhoi sglein arbennig ar yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at ddathliad bythgofiadwy.

Gemau'r Mileniwm

Ar Fehefin 23, 2000 aeth pymtheg o ddisgyblion yr ysgol i'r gemau unigryw yma yng Nghaerdydd.

Roedd gwahanol ysgolion yn cynrychioli gwahanol gampau ac yn y tenis, nofio a phêl-fasged roedd doniau Ysgol Brynrefail.

Fel y dychmygwch, roedd hen baratoi yng nghanol rhialtwch yr holl weithgareddau diwedd tymor, ond chwarae teg, fe wnaeth pob un ymdrech ardderchog.

Daeth y tîm pêl-fasged yn 13eg allan o 18 tîm ond fe chwaraeodd y bechgyn yn ddewr iawn. Da iawn chwi Aaron

Bourne, Aeron Hughes, Tomos Pritchard, Iwan Morris, Carl Griffiths, Kenny Jones, Michael Hughes, Mathew Phillips a Marvin Pritchard.

Yn y nofio, roedd Sion Humphreys, Dafydd Thomas a Nikki Hill yn mwynhau'r cyfleusterau ardderchog a'r chwaraewyr tenis Jonathan Davies, Hamish Thompson ac Emma Smith wrth eu bodd yn yr awyrgylch ungirw.


Mae'r 'sgwad' i gyd i'w canmol am eu hymroddiad a'u hymddygiad tra'n cynrychioli'r ysgol.



Ymweld â'r chwarel



Dyma rai o ddisgyblion blwyddyn 7 ar eu hymweliad â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis y tymor diwethaf. Cafwyd adroddiad yn y rhifyn olaf.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



Kate a Rhys a gweddill y bobl ifanc ar y daith yn Nasa yn rhoi'r proclamatiwn i'r Space Centre.

Y Plwyf, Y Sir, Y Wlad



Eammon Doherty — capten Ard A'ratha, pencampwyr Donegal.

Unwaith eto yr haf yma, Iwerddon oedd y dynfa, ac i ardal wledig Donegal yr ymlwybrodd y wraig a minnau a'n ffrindiau. Sir ryfeddol yw Donegal, yn cynnwys golygfeydd godidog o'r môr a'r mynydd. Hi yw sir fwyaf gogledd orllewinol Iwerddon, yn rhan o'r Weriniaeth ond hefyd yn rhan anatod o dalaith Ulster. Mae naw sir i dalaith Ulster, er ein bod ni efallai wedi cynefino a'r 'chwe sir' boliticaidd a elwir yn Ogledd Iwerddon.

Am y chwe noson gyntaf, ein 'cartref' oedd Ardara, un o drefi marchnad traddodiadol y gorllewin — popeth yn glwstwr o gwmpas yr un stryd. Ar un ochr, mynyddoedd caregog a'r ochr arall llond trol o draethau glân, euraidd. Trwy ddamwain cawsom ein hunain yn nhafarn Doherty's, a'n cyflwyno i'r mab, Eammon. Gŵr ifanc tal yn ei ugeiniau cynnar yw Eammon ac, fel y datblygodd y sgwrs, darganfod ei fod yn un o sêr y pentref. Ef oedd capten tîm pêl-droed Gwyddelig y pentref. Roeddwn ar ben fy nigon. Roedd Emrys a minnau wedi dilyn y gêm yma — a'i chefnider 'hurling' — ers talwm.

Yn y chwe diwrnod nesaf cawsom ein trwytho, nid yn unig yn natblygiad a hanes y gêm, ond yn ei chyfraniad nid yn unig i ardal ond hefyd ei phwysigrwydd i'r unigolyn. Rheolir y gamp gan y GAA — y Gaelic Athletic Association — corff amatur gyda'i phencadlys yn Croke Park, Dulyn. Dyma stadiwm fwyaf yr Ynys Werdd, yn dal hyd at 70,000. Dyma 'deml' y gamp — arena yr ymladdwyr.

Fel y datblyga'r sgwrs o noson i noson — ie, o Guinness i Guinness — gwelwn sawl

cyffelybiaeth a chymhariaeth gyda chwaraewyr pêl-droed neu rygbi lleol yn ein hardal ni. Un clwb chwaraeon sydd yn Ard A'ratha — ac Eammon yw'r capten. Yn nyddiau cynnar y GAA yr oedd dylanwad yr eglwys leol yn bwysig, a dyna pam y mae sawl tîm yn cynrychioli plwyf.

Mewn pentref a adeiladwyd ar gorstir rhwng y môr a'r graig syfrdanwyd Emrys a minnau pan aethom i weld y cae. Roedd wyneb y cae cystal ac unrhyw faes pêl-droed yn yr ardal yma — yn wir, yn llawer gwell. O gofio fod y maes ar gyfer y gêm hon yn mesur 140 llath wrth 80 llath, gallwch ddychmygu'r gofal a roddwyd i gynnal y safon. O'i gwmpas ffens daclus — dim ond y chwaraewyr, y swyddogion a'r hyfforddwyr sy'n cael bod tu fewn iddi. Yn y gornel, ystafelloedd newid braf. Mae'r GAA yn hael eu grantiau, a hefyd mae arian loteri Iwerddon yn treiddio llawer mwy i 'wreiddiau' campau nag yma yng Nghymru.

I ganolbwyntio ar Eammon. Roedd wedi dod trwy'r system hyfforddi yn y clwb, o naw oed ymlaen. Roedd sawl tîm oedrannol yn y clwb, pob un â'i hyfforddwr a'r reolwr. Yr elfen bwysig oedd fod pob tîm yn rhan anatod o'r clwb. Yr oedd pwyllgor y clwb yn darparu ar gyfer pob oedran — o deithio i gemau i nosweithiau hyfforddi. Noson ymarfer 'clwb' oedd nos Lun a nos Iau. Pawb yn ymarfer efo'i gilydd. Elfen bwysig yw'r cymysgu oedrannau yma. Mor aml gwelwn glybiau ieuenctid ein hardal yn arddel enw y clwb, ond does fawr o gysylltiad rhwng y timau ieuenctid a'r tîm hîn. Hogia lleol vŵr ieuenctid, hogia

'dwad' yn aml yw'r tîm hîn! A ddaw cefnogwyr y tîm hîn i wyllo y gemau ieuenctid? A ddaw rhieni yr ieuenctid i weld y tîm hîn yn chwarae?

Ar bnawn Sul chwaraeir y 'gemau' — ie, ceir mwy nag un gêm cyn y gêm fawr i'r tîm cyntaf. Profiad oedd bod yno ar y pnawn Sul. Teuluoedd yn heidio i gefnogi yr 'hogia'. Roedd y dorf a'r tîm yn un — roedd y bechgyn yn cynrychioli nid yn unig y clwb ond hefyd tiriogaeth. Plwyf yn erbyn plwyf oedd yno. Torf o rhyw 400 oedd yno yn talu dwy bunt i fynd i'r gêm. Columcille oedd yr ymwelwyr — yn cynnwys nifer yn siarad y Wyddeleg. Cafwyd chwip o gêm gyda Ard A'ratha yn ennill o 2-14 i 1-17. Dwy gôl yn y rhwyd ac 14 pwynt am roddi'r bêl dros y bar i'r tîm cartref, ac un gôl ac 17 pwynt i'r ymwelwyr. 21-20 gêm agos ac Ard A'ratha yn aros yn ail yn y gynghrair. Ond, blwyddyn y cwpan yw hon i Ard A'ratha. Y Sul diwethaf daethant yn bencampwyr Donegal, o flaen torf o 5,000 yn Ballyboffoy. Yma mae gemau mawr yn cael eu chwarae ar faes yn dal 20,000. Dyma stadiwm y sir. Mwy na'r Cae Ras, mwy na Pharc Ninian a'r Vetch. Â'r clwb ymlaen i gynrychioli'r sir yn erbyn pencampwyr Cavan. Eu nod fydd dod yn bencampwyr talaith Ulster. Yn anffodus mae tîm cryf yn Crossmaglen, swydd Armagh. Bu sir Armagh yn anlwcs eleni yn colli i gewri Kerry ar ôl ail-chwarae gêm yn rownd gyn-derfynol pencampwriaeth yr All-Ireland. Yn ddiddorol, ar ôl gweld y gêm bnawn Sul, aeth criw yn ôl i Doherty's i weld y gêm rhwng Armagh a Kerry ar y teledu. Cefnogi Armagh, tîm yng Ngogledd Iwerddon, yr oedd pawb. Hwyl oedd yn cynrychioli Ulster — eu tiriogaeth hwy. Wedi'r gêm gyfartal aeth pawb adref gan adael Emrys a minnau a dau arall yn gwyllo Man Utd yn erbyn Newcastle. Doedd y gêm yma'n golygu dim iddynt. Mor wahanol i ni adref ynte, ble mae canlyniadau y Premiership yn llawer mwy pwysig na'r tîm lleol?

Mae 15 mewn tîm pêl-droed Gwyddelig a 6 wrth gefn. Yn y cefn, mae Eammon yn chwarae, ond yn amlwg â doniau creu trwy

wrthymosod. Gellir pasio'r bêl drwy gicio a dyrnu ac, yn amlwg, gêm gorfforol yw hi. Mae doniau Eammon wedi denu sylw dewiswyr y sir, ac mae'n aelod o garfan Donegal a enillodd gwpan Sam Maguire un waith. Eu nod yw dod a 'Sam' yn ôl i Donegal yn bencampwyr All-Ireland. Golyga hyn gryn deithio i Eammon, i ymarfer yn Ballyboffoy gyda thîm y sir. Awr a hanner un ffordd ar ffyrdd troellog. Ei nod yw cyrraedd Croke Park gyda'r sir, ac eleni y freuddwyd fawr gyda'i glwb. Beth sy gan chwaraewr amatur lleol i edrych ymlaen ato eleni. Ffeinal ar yr Oval neu Faes Dulyn efallai. Elfen arall yw cyd-aelodau'r tîm.

Gall Eammon chwarae i'r clwb a'r sir gyda bechgyn o'r un cefndir a'r un anian. Yma yng ngogledd Cymru, os yw bachgen lleol yn dangos dawn caiff ei wahodd i chwarae i dîm 'mawr' yr ardal. Pwy sydd yno? Cyd-chwaraewyr sy'n teithio o bellter, weithiau o dros y ffin, i gynrychioli ein 'hardal'. Yna diflannu, ymarfer ar wahan, a dychwelyd y Sadwrn nesaf, yn Gofis neu Fangor Lads dros dro! Mae colled ar ôl yr hen statws amatur. Mor falch oedd ardal pan enillwyd 'cap' gan un o'r hogia lleol.

Pan ffoniais i Eammon i'w longyfarch, roeddent yn mynd o amgylch y plwyf i arddangos y cwpan. Yr oedd y diriogaeth wedi ei chynrychioli. Os bydd Ard A'ratha yn dod yn bencampwyr Ulster yna byddant yn y rownd gyn-derfynol i chwarae enillwyr y tair talaith arall — Connacht, Munster a Leinster.

Beth os buasai tîm Gwynedd ar wahanol lefel i bêl-droedwyr wedi gadael yr ysgol? Hwylthau yn ymgiprys am bencampwriaeth y Gogledd, yna ymlaen i chwarae y De, Gorllewin a'r Dwyrain, neu wyth sir Cymru. A'r gêm derfynol yn y Stadiwm Genedlaethol. Dyna beth fuasai rhywbeth i anelu ato. Na, gwlad fach yw Cymru, teithio yn rhy anodd, dim noddwyr! Beth amdani, weinyddwyr y gêm. Gwynedd yn bencampwyr pêl-droed Cymru. Breuddwyd ffôl, ynteu ...



Pwynt arall ar y ffordd i Ard A'ratha

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CYMDEITHAS EGLWYS ST PERIS A ST PADARN. Bu cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas yn Angorfa ar Fedi 7 dan lywyddiaeth Mrs Anne Parry-Jones. Dechreuwyd fel arfer trwy weddi dan arweiniad y Llywydd. Y gŵr gwadd oedd Mr Edgar Parry o Gaernarfon a siaradodd ar Deithiau y Parch John Parker a oedd â diddordeb eang mewn pensaernïaeth Eglwysig, yn enwedig felly yng Nghymru. Yn amlwg roedd ganddo hoffter mawr o ardal Llanberis ac o Eglwys y Nant yn arbennig. Diolchwyd iddo ef ac i'r aelodau oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl: Mrs Evelyn Williams, Mrs Margaret Griffiths a Mrs Heulwen Edwards, gan Mrs Moreen Lennon.

Dymunwyd gwellhad buan i amryw o'r aelodau oedd yn absennol oherwydd anhwylder a hefyd anfonwyd cydymdeimlad y Gymdeithas at Mrs Bet Hughes a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei brawd yr wythnos hon. Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Humphreys. PLAS PENGWAITH. Fe fuom yn lwcus iawn yn cael mynd i gyngerdd Bryn Terfel ar Awst 25. Fe aeth naw o'r trigolion a phump o staff gyda chymorth a rhodd Eddison Power. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain er gwaethaf y tywydd ar ddiwedd y noson. Diolch yn fawr iawn i Eddison Power.

Ar Awst 27 cafwyd cyngerdd yn y Lolfa gyda grŵp pedwarawd o Cuba.

Wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod mae Mr D.J. Thomas a Mrs Bessie Owen. Braf yw cael eu gweld yn ôl rwan.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Susan a Dafydd Bullock am eu rhodd garedig i'r cartref o deledu lliw, er cof am eu mam a oedd yn wreiddiol o Lanberis.

Yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ochrau Lerpwl mae Mr O.G. Jones ac mae pawb yn y Cartref yn dymuno gwellhad buan iddo. PROFEDIGAETH. Ar Awst 25, 2000 bu farw Dafydd W. Roberts (Arfon), 50 Maes Padarn. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Doreen, Derek, Dewi a Delyth a'r teulu yn eu colled o ofal tyner y teulu.

Bu Dafydd yn gweithio yn chwarel Dinorwig am dipyn o flynyddoedd ac wedyn yn Arvon Coaches. Bu yno am 14 o flynyddoedd, yn hapus yn ei waith.

Cymeriad hwylus, caredig a ffyddlon a ffrind da i rai oedd yn ei adnabod yn iawn.

Bu'r angladd ddydd lau, Awst 31 yn Eglwys St Gabriel, Cwm-y-glo. Eglwys fechan ydyw ond roedd gan Dafydd feddwl mawr ohoni ac roedd yn braf ei gweld yn orlawn a llawer y tu allan er gwaethaf y tywydd. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanrug. Mawr fydd y golled i'r teulu, y ffrindiau a'r cymdogion.

DIOLCH. Hoffai Doreen, Derek, Dewi a Delyth a'r teulu ddatgan eu diolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i Glenys Sullivan a phawb ym Meddygfa Llanberis. I'r Parchedigion P. Hughes, T. Roberts a G. Williams ac i Mr D. Jones a Mr G. Jones, ac i Mr M. Pritchard a Mr G. Jones am y drefniadau yr angladd.

PRIODAS. Priodwyd Carys Wilson Hughes, merch Hugh a Brenda Hughes, 87 Maes Padarn a Mark Anthony Jones, mab y diweddar David a Myfanwy Jones, Pen Rallt Goch, Llanllyfni ar Awst 12 yng Nghapel Jerusalem. Gwsanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams.

DIOLCH. Hoffai Mark a Carys ddiolch o gallon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DIOLCH. Mae Olive a Noel yn diolch yn fawr i chwi am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar eu Priodas Ruddem ar Awst 27.

DYMUNA Moreen Lennon, Plas Tirion ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb a fu mor garedig tuag ati ar achlysur dathlu ei 'phen-blwydd arbennig' ar ddechrau Medi. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna John a Falmai Pritchard, Cilfynydd, Llanberis ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a'r cyfarchion a anfonwyd atynt wedi geni ei mab, Aled. Gwerthfawrogn yn fawr bob caredigrwydd a dymunad da a estynnwyd i ni.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Wavell Roberts
CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYMDEITHAS CYFEILLION

EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod yn neuadd yr Eglwys, nos Lun, Medi 4. Dechreuwyd gyda gweddi a darlenniad o'r Beibl gan y llywydd, y Parchedig John Gareth Parry. Hefyd croesawyd yr aelodau yn ôl ar ôl y gwyliau.

Fel yr arfer yng nghyfarfod cyntaf y tymor, cawsom noson Moes a Phryn i godi arian. Y tro hwn at Gymdeithas Cleifion Arennau Gwynedd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 2, pan fyddwn yn cael swper cynhaeaf gyda'r aelodau yn ei baratoi. Y siaradwr gwadd fydd Mr Cledwyn Jones, Bangor ac edrychwn ymlaen at ei groesawu. DIOLCH. Dymuna Sally Lewis, 5 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian, blodau a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Hefyd carai ddiolch i Gymdeithas y Chworiwyd Cefn y waun ac Ebeneser am y te parti arbennig ac hefyd dymuna ddiolch i Gwynndaf ac Ann am y diwrnod arbennig a gafodd yn lwerddon. Diolch o galon i bawb. GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Paula ac Aneurin o Langefni, gynt o Ddeiniolen, ar enedigaeth eu mab bach ar Awst 14 — Tegid Fôn, ŵyr i Buddug a Barry, 5 Rhydfadog a Wil a Rosalee, Llangefni a gor-ŵyr i Nan Owen, 48 Rhydfadog a

Nesta Jones, Hafan Elan, Llanrug. DIOLCHIADAU. Dymunas Paula ac Aneurin ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr arian, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar enedigaeth eu mab, Tegid Fôn.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLLEN.

Cyfarfu'r ymddiriedolwyr nos Fawrth, Awst 29. Derbyniwyd pedwar cais am gymorth eleni, a dyfarnwyd rhoddion gwerth £1,800 fel a ganlyn: Eisteddfod Gwaun Gynfi - £300; Merched y Wawr, Cangen Deiniolen - £150; Seindorf Deiniolen - £150; Ysgol Feithrin Deiniolen - £400.

Penderfynwyd hefyd i osod llechen yn y caban i goffau'r diweddar Mr Bobby Williams, 4 Tai Caradog. Bu Mr Williams yn ysgrifennydd y Gronfa Ymddiriedolaeth o'i sefydlu yn 1980 hyd 1998, ac yn weithgar gyda nifer o fudiadau a chymdeithasau'r pentref.

Darluniau Dyfrlli

Os am luniau o olygfeydd lleol am brisiau rhesymol gan arlunydd lleol, cysylltwch â:

Rhiannon Williams,
Gwylfa, Waunfawr
(01286) 650125

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLYGU'R ECO. Carwn ddiolch o galon i'r pedwar ar hugain a ddaeth ynghyd ar noson ystormus iawn i blygu'r Eco, a hefyd rhaid peidio ag anghofio'r plant. Diolch i Miss Jean Parc Jones am ei ffordd drefnus yn ei ddosbarthu i'r pentrefi ac, wrth gwrs, nid yw Jean byth yn anghofio'r plant. Yr oedd y gwaith i gyd wedi ei gwblhau erbyn chwarter wedi saith. Dipyn o record mi gredaf. Diolch i bawb.

ADREF O'R YSBYTY. Yr ydym fel ardal yn falch o ddeall fod Mrs Laura Williams, Tan y Fron, Mrs Betty Bowen, Tan y Marian a Mr John Brenan, Afallon, y tri wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl triniaeth. Gobeithio eich bod yn dal i wella. Yr ydym yn anfon ein cofion atoch eich tri a brysiwch wella.

GAIR BACH O DDIOLCH. Rwyf yn siwr ein bod fel ardal yn ddiolchgar iawn i Mr Andrew Griffiths, Tan y Bwlch, am roi o'i amser ac hefyd y paent i beintio y sêd sydd wrth ymyl lle roedd y post rai blynyddoedd yn ôl bellach. Mae hyn wedi gwneud gwhaniaeth mawr iddi ac mae yn edrych fel newydd. Diolch yn fawr, Andrew.

Y GANOLFAN. Yn yr Eco fe fu imi grybwyll fod newidiadau i fod yn y cyfansoddiad. Erbyn hyn yr wyf mewn sefyllfa i ddweud wrthyfch am y newidiadau hynny: O'r cyntaf o Fedi fe fydd y pris o logi'r Ganolfan yn cosio £10 ac, os oes angen y gegin fe fydd rhaid talu £5 arall. Hefyd fe fydd gordal o £5. Os bydd rheolau y Ganolfan wedi eu cadw fe fydd y gordal o £5 yn cael ei roi yn ôl.

I rai o'r tu allan i'r ardal fe fydd llogi y Ganolfan yn costio £15. £5 ychwaneg am y gegin ac eto gordal o £5, hwn eto yn cael ei roi yn ôl os bydd y rheolau wedi eu cadw. Mae yn rhaid cadw'r Ganolfan yn lân ac yn daclus.

Ni fydd yr un cais yn cael ei ystyried os na fydd yn ysgrifenedig. Gofynnwn yn garedig os am logi y Ganolfan i chwi BEIDIO a churo ar ddrws Tŷ'r Ysgol, gan mai'r unig gysylltiad sydd gan Mr a Mrs Evan Bryn Roberts â'r Ganolfan yw fod Mrs Roberts yn lanhawraig, ond nid Gofalwr.

Drwy wneud cais ysgrifenedig fe fyddwch yn derbyn ateb ysgrifenedig a threfniant ar sut i gael y goriad a beth i'w wneud hefo'r goriad ar ôl gorffen hefo'r adeilad.

Gobeithio bod hyn yn ddealladwy i bawb, ac na fydd

mwy o aflonyddu ar deulu Tŷ'r Ysgol.

MYND I'R YSBYTY. Yn ystod y dyddiau nesaf yma fe fydd Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol yn mynd i Ysbyty Llandudno i dderbyn llawdriniaeth. Hefyd fe fydd Mrs Sioned Lewis, 3 Bro Elidir yn mynd i Ysbyty Gwynedd i dderbyn llawdriniaeth. Ein dymuniad fel ardal yw ichwi eich dwy gael adferiad llwyr a buan, ac y cawn eich gweld adref yn fuan. Pob lwc.

GWASANAETH TRAFNIDIAETH CYHOEDDUS. Yn y rhifyn o'r Eco cyn y gwyliau yr oeddwn yn son am yr HAFOC oedd wedi ei wneud hefo'r gwasanaeth uchod, gyda chyn lleied o fsys yn dod i'r ardal. Mae'n anodd credu nad ydynt yn cadw i'r daflen amser newydd yma, ond dyna'r gwir.

Rhyw bythefnos yn ôl a rhai o'r ardal wedi mynd i Gaernarfon ynglŷn â'u busnes, i ddod adref cawsant fws dau lawr, ond och a siom a dychryn hefyd, doedd y bws ddim yn fodlon dod â hwy ddim pellach na Rhydfadog. Ei esgus ydoedd na allai bws dau lawr basio wrth y Ganolfan, gan fod y Bwrdd Dŵr yn gweithio yno. Mae yn bosibl fod hyn yn gywir ond Pam o Pam y daeth y gyrrwr yma allan hefo'r bws dau lawr? Ac heb os nac oni bai yr oedd yn gwybod beth oedd yn mynd ymlaen ar y ffordd yn Ninorwig. A oedd yn hollol ddi-deimlad tuag at ardalwyr Dinorwig?

Yn anffodus, yr oedd ar y bws yma un wraig dros ei pedwar ugain, a'i hiechyd ddim yn rhy dda. Doedd dim modd iddi gerdded adref. Diolch fod yna un Samariad Trugarog yn byw yn Rhydfadog a fu yn garedig wrthi a dod a hi adref. Diolch yn fawr iawn Tydfil. Gresyn na allwn ddweud yr un peth am y gyrrwr. Tybed a yw yn byd i 'Ariva' eistedd i lawr a gwneud yn siwr eu bod yn cario eu gwaith allan yn llawer gwell. Beth pe buasai rhywbeth wedi digwydd i'r wraig yma. Nid wyf yn meddwl y buasai 'Ariva' yn poeni rhyw lawer.

Beth oedd eisiau bws dau lawr? Mae un llawr yn hen ddigon i ddod i'r ardal yma. Mae yr achos yma yn gwneud i'r ardalwyr feddwl cyn cychwyn allan rhag ofn na ddaw'r bws a hwy adref, a phwy wêl fai arnynt? Fe ddaw eu taflen amser gaef allan mewn ychydig ddyddiau. Tybed beth sydd o'n blaenau a pha HAFOC fydd wedi ei wneud y tro yma. Amser a ddengys!

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfrfod o'r Cyngor ar nos Fercher, 13 Medi. Roedd Arolygydd yr Heddlu yng Nghaernarfon yn brsennol. Oherwydd y cynnydd yn y bobl ifanc sy'n gyrru'n gyflym heibio Tai Glangwna, ar ôl ymweld â 'thêc-awe' yng Nghaernarfon, bydd yr heddlu yn goruchwyllo rhifau'r ceir sy'n troi'n aml i fyny Ffordd Penybryn.

Ym marn yr heddlu, dylai'r Cyngor ymgynghori gyda'r cwmni melin bapur ynglŷn â chyflymder eu lorïau mawr sy'n gor-yrru ar hyd y briffordd trwy'r pentref, er mwyn dylanwadu ar y cwmni i reoli'r sefyllfa eu hunain.

Adroddwyd gan Gyngor Gwynedd y bydd chwarae gemau hefo pêl yn cael eu gwahardd o Stad Bryn y Gof ar ôl i'r man chwarae i blant lleiaf gael ei gwblhau a'i agor yn y gwanwyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi'r cais gan y Cyngor am fws ychwanegol i ac yn ôl o Gaernarfon tua 9 yr hwyr.

Mae'r Cyngor wedi derbyn copi o fanylion y cais cynllunio am ddatblygu'r gwaith brics ymhellach oddi wrth Gwmni Brics Hanson. Syfydlwyd is-bwyllgor o dri (dau aelod Caeathro a'r Cadeirydd) er mwyn archwilio'r ddogfen dechnegol a chyflwyno argymhellion i Gyngor Gwynedd, gan gyd-drafod hefo Cyngor Cymuned y Bontnewydd.

Bydd cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref yn ystyried ceisiadau ariannol oddi wrth fudiadau lleol.

Mae Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau nad oes unrhyw amod cynllunio sy'n rhwystro oriau agor Garej Gwalia. AMSERLENI BWS. Mae amserlen y gaef wedi dechrau erbyn hyn. Gwelir fod nifer o fân newidiadau i'r amserlen i'r dref ac amser y bws

olaf adref wedi dod ymlaen i 11.10 yh.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Medi oedd:

1. £40 (33) Margaret a Cled Jones, Ysbyty; 2. £25 (84) D.a E. Cartnel, Brogaredd, Stad Glandŵr; 3. £15 (7) Margaret Roberts, The Barn; 4. £5 (48) Will Hughes, Cefn Gwern.

MAN CHWARAE'R PLANT IAU. Gyda'r gwaith adeiladu wedi dechrau o ddifri, bydd trafodaethau cyn bo hir rhwng y Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Cae Chwarae ynglŷn â'r cyfrifoldeb a'r gost o'i gynnal a'i gadw.

SGIP GYMUNEDOL. Disgwylir y bydd y sgipiau cymunedol yn y pentref ddydd Mawrth, 3 Hydref. GWASANAETHAU'R CAPEL. Bydd y gwasanaethau canlynol ar Suliau mis Hydref:

1. Diolchgarwch am 10.00 efo plant yr Ysgol Sul;
8. 11.00 Ysgol Sul;
15. 11.00 Ysgol Sul, 2.00 y Parch Ronald Williams, Salem (A), Caernarfon;
12. 11.00 Ysgol Sul;
29. 11.00 Ysgol Sul.

SIOE ARLUNIO'R MILFLWYDD. Penderfyniad y Beirniaid oedd arddangos y lluniau canlynol fel canlyniad i'r arddangosfa.

3-5 oed. Gêm neu gymeriad cartŵn: 1. Megan Lloyd; 2. Gwion Eryl; 3. Lowri Ceiriog, Hywel Jones, Betsan Ceiriog.

6-8 oed. Collage Glan y Môr: 1. James Jones; 2. Celt Iwan.

9-12 oed. Darlun Natur: 1. Hannah Hughes.

13-16 oed. Creu cymeriad cartŵn ar gyfer gêm gyfrifiadurol wreiddiol: 1. William Williams; 2. Mari Roberts.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



Llythyr o'r America

B.Atrh,
Brown Co.
D.T.

November 8th 1885

Anwyl Frawd,

Derbyniais liaws o lythyrâu oddiyna yr wythnosau diweddfaf yma, ac yn eu plith yr oedd un oddiwrthyt ti, yn amguedig yn mha'r un oedd fy arian, ac yr wyf yn wir falch i chwi eu h'anfon i mi a hyny mewn pryd. Nis gwn yn awr pa foment y bydd arnaf eu h'angen.

Cefais lythyr oddiwrth Mam ddoe, ac yr oeddwn yn falch iawn o hono. Cefais liaws mawr o newyddion ynddo. Rwyn deall fod R.R. Williams wedi gadael Cymru, a bellach y mae yn y wlad hon os cafodd rwydd hynt ar ei daith. Rwy'n sicr fod yn anhawdd iawn ganddo ffarwelio a'i gyfeillion yn Llanberis am y tro diweddfaf am byth. Yr wyf i yn disgwyl y caf air oddiwrtho ar ei ddychweliad yn ol i L'Anse. Byddaf i yn mynedd oddiyma i Cambria gyda Tom tua'r Nadolig, os nad awn yng nghynt. Y mae 'Jenkins' yna 16th a 17th December, ac fe allai y ceisiwn fyned yno erbyn hyny.

Cyn fyned yr wyf i am fyned i Ipswich i geisio *Claim* ac os gwelaf un wrth fy modd ac am bris rhesymol o \$500 i lawr mi a'i prynaf, achos y mae tua Ipswich ardal ddiffr iawn, ac y mae yno sefydliad cryfaf o Gymry yn America, ond eithrio Cambria a'r amgylchoedd. 26 miles oddiyma yw Ipswich, ac y mae Powell City 10 miles i'r south oddiyno, ac wyth milldir oddiyno wedi hyny (sef Powell City) mae Hugh Parry, a J.P. Jones, a'r Hen Pritchard, Brynrefail, pwy bynnag ydi hwnw. Yr wyf i yn methu yn foes a gwybod pwy ydyw. Daeth ei blant bach, 4 o honynt yma i Dakota yr wythnos o'r blaen. Clywais eu bod wedi eu cael eu rhoddi i lawr yn Aberdeen yma, heb yr un cent i fyned ymhellach, ond digwyddodd rhyw fachgen ieuanc wyf yn ei adwaen yn dda

yma eu clywed ar y *street* yn siarad Cymraeg, a gofynodd iddynt i ba le yr oeddynt yn myned a dywedodd y bachgen hynaf mai i Powell City, a thrwy eu holi deallod y bachgen hwnw mae plant yr Hen Pritchard oeddynt. (dyna fel y mae pobl Edmunds Co. yn ei alw.) Cymerodd ofal ohonynt ac aeth a hwynt i ben eu taith yn ddiogel, achos yr oedd ef yn mynd i Ipswich am ei *daim*, ac yr oedd yn adwaen yr Hen Pritchard yn bur dda o ran ei weled, achos y mae y *Greenhorns* yn hawdd ei h'adwaen ym mhob man yma. Ond amdanaf i, yr wyf i wedi 'bwrw fy nhgryn' ers dros flwyddyn ac yr wyf braidd a meddwl fod bunglareiddiwrch yr Hen Wlad wedi cael ei *polisho* i ffwrdd oddiarnaf, ai nid oedd ein Rowlands a'u Williams ni yma yn tystiolaethu hyny amdanaf pan yn Fron Goch? Yr wyf yn gweled fy hun wedi cyfnewid yn fawr fy hunan, a byddaf yn meddwl pe buasech chwithau yn fy ngweled am rhyw ychydig bach o amser y buasech yn dweud yr un peth.

Pe buaswn y Nadolig neaf yn disgyn yn Cambria, Wisconsin fel y disgynais yno y tro cyntaf erioed am rhyw ddiwrnod, ac yna yn cyfnewid i'r dull yr wyf yn bresenol na fuasent braidd yn fy adwaen os na fuasent o ran y corph, ond mae hwnw wedi Yankeissio llawer hefyd ac nid oes arnaf yr un mymryn o gywilydd ddweud hyny chwaith. Ond dyma fi wedi myned allan oddiwrth y testun etto, ond i ddychwelyd.

Yr wyf yn meddwl am geisio cael *Claim* mewn rhyw ychydig i Ipswich, os na chaf un mor agos a 6 milldir gwell yw bod heb un o gwbl, achos y mae claim mor bell nas gall fyned ond unwaith yn y dydd i'r farchnad yn anhwylyd iawn, ond os bydd rhywun mewn 6 milldir gall wneud 2 trip y dydd yn hwylus. Nid yw 6 milldir yn edrych i mi yma ond yn debyg fel y mae Nant Uchaf o'r Nant Isaf. Rhaid y gwelaf yna le bychan iawn a phob man yn agos iawn os caf y, fraint o ddod yna rhywdro.

Rwy'n disgwyl cael gweled

Hugh Parry yno, ond nid oes arnaf eisiau gweled neb arall yno. Y mae John Parry yn yr *East* o hyd rwy'n deall. Y mae pawb yn hoff iawn o Hugh Parry, ac yn dweud ei fod sicr o ddod ymlaen os gwnaiff gadw oddiwrth y giwed eraill. Y mae yr Hen Pritchard wedi rhoddi ei yd ar dan ei hunan ac y mae heb ddim. Rhaid y bydd yn golled arno gyda'r criw teulu y gauaf yma.

Os y byddaf i yn myned i Edmunds Co. fel yr wyf yn meddwl yr haf nesaf (h.y. os prynaf yna) rwy'n sicr na fydd dim a wnelwyf a'r criw yna ond Hugh Parry, achos y mae yno ganoedd o Gymry yn Powell, h.y. y wlad o amgylch Powell. Nid yw Powell ond pentref bychan.

Rwyf yn credu fod Dakota yn wlad ag y bydd ymhén ychydig o flynyddoedd etto yn gyfoethog iawn. Gyda 160 acres wedi ei aredig oll, a chael *crop* cymedrol bob blwyddyn y gall dyn roddi o \$1500 i \$2000 o'r neilldu yn glir bob blwyddyn, a chael bywyd

ysgafn iawn, hefyd. Ond y mae 3 blynedd cyntaf yn myned yn gostau os na all gael tua 90 acres wedi ei *breakio* y flwyddyn gyntaf. Gyda 4 ceffyl y gall *breakio* 160' mewn tymor Gwanwyn yma.

Hefyd y mae yn Powell 2 gapel newydd yn awr. Un o eiddo y Methodistiaid a'r llall o eiddo yr Annibynwyr. Byddai cael lle yn agos i addoliad yn ddwbl y gwerth, a mwy, gennyf. Y mae yma yn Bath addoliad braidd bob Sul ac y maent yn myned i godi capel Methodistiaid Cymreig yn y *Spring* nesaf. Y mae yma weinidog rhwng Bath a Powell City, ond un pur glaiar ydyw ef. Nid oes ysbrydydd yn pregethwyr America yma fel rhai Cymru, ond eithro ambell un.

Anfonwch nesaf i Cambria fel y gellwyf ei gael y Nadolig. Byddaf yn sicr o fod yno erbyn hyny, os caf fywyd ac iechyd. Nid yw y fare yn ol a blaen ond tua \$20 trwy bwrcau '1000 mile ticket'.

parhad ar dudalen 17

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

**GLANHAWYR CARPEDI
a POLSTRI**

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri nos Lun, Medi 18 dan lywyddiaeth Elinor Williams. Darllenwyd llythyr y mis gan yr ysgrifenyddes Pat Jones. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Steve Long, Tan yr Onnen. Cafwyd adroddiad ganddo drwy gymorth sleidiau o'i daith gyntaf dair blynedd yn ôl i Borneo. Ers hynny mae wedi ail-ymweld a'r wlad ddwywaith. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau na fu yn dda eu hiechyd yn ddiweddar: Jennie Hughes, Ifanwy Jones, Alice Williams a Gwenda Roberts. Llongyfarchwyd Verna Jones ar i ffotograff o'i heiddo gael ei ddewis ar gyfer Calendr Sefydliad y Merched 2001. Mae'r calendr yn arddangos ffotograffau o wahanol glwydi.

Cyhoeddwyd y bydd Diwrnod Blasu Gweithgareddau yn cael ei gynnal yn Ysgol Syr Hugh Owen ddydd Sadwrn, Hydref 7 o 11 hyd 3.30 o'r gloch a phris mynediad fydd £2.00. Arddangosir gwaith gwahanol Sefydliadau, cynnyrch llenyddol, gwyddonol a phob math o grefftwaith.

Cynhelir Cyngor yr Hydref o Ffederasiwn Gwynedd Caernarfon o Sefydliad y Merched yn Ysgol Tryfan, Bangor ddydd Sadwrn, Hydref 21 am 1.30 o'r gloch.

Dan nawdd Sefydliad y Merched yn genedlaethol mae gweithgaredd dan y teitl 'Prosiect Llwybr 2001' wedi ei lansio. Prosiect yw hwn lle gwahoddir canghennau lleol o'r Sefydliad i gyfrannu yn ymarferol i'w milltir sgwâr. Pasiwyd yn y cyfarfod nos Lun y bydd y gangen leol ym Mrynrefail yn hybu gweithgareddau fydd a'u helw yn cefnogi ac yn cyfrannu at ddatblygiadau arfaethedig yn y Ffestri, man cyfarfod y gangen yn fisol.

Paratowyd y lluniaeth gan Nerys Roberts, Alice Williams a Jennie Hughes. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mai Davies gan Carys Parry. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 16 pryd y disgwylir Lesley Evans i arddangos gwaith paentio gyda chŵyr llosgliw.

SAFLE'R HEN YSGOL. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae model a chynllun bras o'r adeilad y bwriedir ei godi ar safle'r hen ysgol wedi

bod yn cael eu harddangos yn y Swyddfa Bost. Fel hysbyswyd yn rhifyn Mehefin o'r Eco, cytrunwyd yn y pwyllgor a gyfarfu ar Fai 16 y buasai'r model yn cael ei arddangos yn ogystal am ran o'r cyfnod yn y Ffestri, er budd nifer yn y gymuned sydd yn mynychu'r safle honno yn unig. Felly yn wyneb y ffaith fod amryw wedi colli'r cyfle i gael golwg ar yr arddangosfa bydd y model a'r cynlluniau manwl terfynol fel ag y paratowyd hwy ar gyfer y cais cynllunio yn cael eu gosod yn y Ffestri yn ystod yr wythnos olaf o'r mis hwn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Anrhydeddu Gwasanaeth. Nos Fercher, Medi 13 mewn cyfarfod o Gymdeithasfa'r Gogledd a gyfarfu yn Eglwys Mynydd Seion, Abergelge llongyfarchwyd Mr

Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth am wasanaeth o hanner can mlynedd fel blaenor. Ynghyd â chwe blaenor arall o Gymdeithasfa'r Gogledd, estynnwyd cyfarchion o ddiolch a dymuniadau da iddo gan Lywydd y Gymdeithasfa, y Parchedig Athro Elfed ap Nefydd Roberts, Wrecsam.

Ymhlith pedwar ar hugain o flaenoriaid a ddathlodd ddeugain mlynedd yn y swydd yr oedd Mr Emyr Williams a fu'n gwasanaethu fel blaenor yn Eglwys Ysgoldy, Clwt-y-bont. Nid oedd ef yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond unwn fel Eglwys â'r llongyfarchiadau a estynnwyd iddo yntau yn y Gymdeithasfa am ei wasanaeth, gan werthfawrogi ei gwmni ef a'i briod fel aelodau erbyn hyn o'r eglwys yma ym Mrynrefail.

CYMDEITHAS Y CAPEL. Oherwydd amgylchiadau anorod bu rhaid dileu'r cyfarfyddiad o Gymdeithas y Capel nos lau Medi 14. Hyderwn y bydd nifer dda o'r

aelodau yn ymgynnull ar gyfer cyfarfod olaf y tymor a gynhelir nos lau, Hydref 12 pryd y disgwylir Mr Gareth Roberts o Hufenfa De Arfon i roi sgwrs dan y teitl 'Blasu Caws'.

Trefn yr oedfaon am fis Hydref: 1: Mr John H. Hughes, Llanberis am 5.30;

8: Dim Gwasanaeth;


15: **Gwasanaeth Diolchgarwch** am 2.00 o'r gloch;

22: Parch Gwynfor Williams am 5.30;

29: Mr J.O. Roberts am 5.30.

Bnawn Sul, Hydref 1 am 1.30 o'r gloch cynhelir SBRI YR YSGOL SUL yn Ysgol Brnrefail. Bydd disgyblion yr Ysgol Sul a'u hathrawes, Mair Wyn Davies yn ymuno ag aelodau Ysgolion Sul Arfon mewn prynhawn o amrywiol weithgareddau.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy



CYFRES NEWYDD

LLAFUR CARIAD

DRAMA WLEIDYDDOL FAWR

9.00

Bob nos Sul

Yn cychwyn Tachwedd 5

TRANSL888/889

www.s4c.co.uk

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Fy address yno fydd:- O.W. Rowlands, Cambria P.O. Columbia Co. Wisconsin, U.S.A.

Beth yw y cynnwrf y sydd gennyh tua'r chwarel yna o hyd? Pe buasech yn chwarelydd America yma buasech yn gweled mwy o gaethiwd yn oriau gweithio, a gorfod dioddef mwy oddiwrth *Bosses* anwybodus. Ond y mae yn ddiarheu fod yna eithafion gyda phethau yn cael eu cario ymlaen tuag atoch, neu ni buasech yn aflonyddu cymmaint. Y mae genyf gred mawr ynoch fel chwarelwyr. Yr wyf wedi bod yn amddiffyn 'Chwarelwyr Arvon' hyd y carn yma lawer gwaith, a da oedd gennyf weled ysgrif R.R. Williams yn y 'Drych' yn eich cawnmawl fel bechgyn ieuanc. Gwnaf anfon y 'Drych' i chi yn gyson pob wythnos.

Bydd yn dda gennyf glywed pawb o'r ffermyr yma (ac yma ydyw y dosbarth goreu yn America) yn dweud fod bechgyn y chwareli mor fedrus gyda gwaith y ffarmio yma gyda thrin y *tools*, a'r *machines* pa rai nas gellir eu h'ebgor gyda ffarmio. Hefyd ychydig o'r Greeneidiwch y bum yn son yn flaenorol am dano sydd i'w weled ynddynt, rhagor sydd i'w weled yn rhai sydd yn dod trosodd o Sir Fon yma. (Y Bryn Acw)

Bum yn meddwl lawer gwaith am ysgrifenu ychydig i rai o'r papurau Cymreig yna pan gaf hamdden. Rwy'n credu y gallaswn ysgrifenu rhai pethau a fyddai o ddyddordeb mawr gan fy hen gyfeillion yna. Y mae gennyf liaws mawr o bethau nad wyf wedi eu son amdanynt etto yn y wlad yma o'r achos diffyg lle a hamdden. Ond pan gaf gartref

yma mi dalaf i'w chroen hi mewn cysylltiad a'r ysgrifennu yma. Beth yw eich barn am hyn? Ai tybed y buasai hyny yn dderbyniol gan fy hen gydnabod tua'r chwarel yna? Dywedwch eich barn ar hyn.

Buaswn yn hoffi cael bod gyda thi yn yr Albert Hall yn gwrandaw ar 'Eryri Male Voices'. Rwy'n siwr eu bod yn dda iawn. *Pity* i mi ddod oddiyna heb gael golwg ar brif ddinas y byd, ond nid oes dim i'w wneud ond byw mewn gobaith.

Y mae yna liaws mawr o'm hen gyfeillion nad wyf wedi anfon yr un gair iddynt ers pan yr wyf yma Nid esgeulusdra ydyw yno, ond aethai yn anodd iawn i anfon i bawb. Cofio am fy nheulu yn gyntaf onide?

Nid wyf yn meddwl gwneud dim y gauaf nesaf yma yn Wisconsin, achos y mae yno liaws mawr y caf dderbyned cynes ganddynt, ac yn falch o fy ngweled. Clywais fod Beneth Ellis wedi bod yno am 3 wythnos, ond ni bu ond un noswaith yn aros gydag neb o'r teulu. Nis gwn gyda phwy yr ydoedd, caf yr hanes pan af yno. Ond gwn un peth nid oedd neb o'r teulu eisau ei gweled ar ol iddi actio fel y darfu gyda'i theulu yno. Clywais fod golwg ddigon geledd iawn arni beth bynnag, yn edrych yn fudr a bler iawn. *Pity* i'r un o honynt ddod i olwg America erioed. A fydd John Ellis yn son rhywbeth am danynt yn awr?

Cofion goreu atoch oll fel teulu, ac anfon y tro nesaf i Cambria, fel y bydd yno erbyn y Nadolig. Anfonaf innau i chwithau bob cyfle a gaf oddiyna ac oddiyna. Ydwyf, dy anwyl frawd, Owen.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn yn dda i Heather Owen, Bryn Môr ar ei phriodas â Nigel o Lanberis.

DYMUNIADAU da hefyd i Jason Anderson ar ei briodas ac Eleri o Garmel. Maent wedi ymgartrefu yn Stad Glyn Afon.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dyna oedd Ffion Williams, Trigfa yn wneud ar y pedwerydd ar hugain o'r mis - dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Ffion.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Ffion Haf Williams, 4 Stad Tŷ Hen ar lwyddo yn arholiad Piano Gradd 1 gydag anrhydedd; i Angharad Owen, 5 Stad Tŷ Hen ar lwyddo yng Ngradd 1 gyda theilyngdod ac i Arawn Glyn, Garmon, yntau hefyd wedi llwyddo yng Ngradd 1. Daliwch ati - wnewch chi ddim difaru!

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbty i Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt. Gobeithiwn y byddwch yn gwella o ddydd i ddydd.

Do, fe gryfhodd Guto, un o efeilliaid bach Teganedd a chafodd ddod adref at ei efaill arall, Morgan a'i chwaer fawr, Gwenllian.

LLONGYFARCH. Rwy'n siwr y cawn ni longyfarch Llion Iwan, Afallon, un arall ifanc o'r pentref, ar ddod yn agos iawn i'r brig yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch eleni. Bydd ei ddyddiadur taith 'O Afallon i Shangri La' yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i deulu 2 Ael y Bryn ar enedigaeth merch fach, Chloe. Bydd Dilwyn, Diane, Elen, Caryl a Tara yn siwr o helpu eu rhieni i ofalu am eu chwaer bach newydd.

PROFEDIGAETH. Yn dawel yng

nghartref preswyl Plas Maesincla, yn 89 oed, bu farw Miss Hannah Mary Hughes, Vardre gynt.

Brawychwyd trigolion y pentref gyda'r newyddion trist am farwolaeth Mark Basterfield, trwy ddamwain beic modur. Roedd Mark a'i deulu wedi byw yn y Waun am flynyddoedd cyn iddynt symud yn ddiweddar iawn i ardal Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei rieni, Hillary a Peter Basterfield a'i chwaer Jamie.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Bydd cyfarfod cyntaf tymor arall o'r Gymdeithas Llenyddol yn dechrau nos Lun, 9 Hydref yn y Ganolfan am 7.30 pan y ceir noson o adloniant gan Gôr y Waunfawr o dan arweiniad Gwenda Griffith gydag unawdwyr ac eraill yn cyfrannu i'r noson. Llywydd y cyfarfod fydd Meira Turner. Pris mynediad fydd tocyn aelodeth i'r Gymdeithas am y tymor, sef £3.00, neu £1.00 i oedolion a 50ceniog i blant i'r cyfarfod hwn yn unig.

Mae'r pwyllgor yn gobeithio y bydd cynnydd yn yr aelodaeth y gaeaf hwn, gan fod rhaglen amrywiol a diddan iawn wedi ei darparu pryd y disgwylir torri gerwinder y gaeaf yng nghwmni Neville Hughes, yn adrodd hanes diddanu am flynyddoedd gyda Hogia Llandygai; Annette Bryn Parri yn rhoi noson gerddorol; W.O. Jones yn dwyn i gof hen siopau y Felinheli a Meurig Williams yn rhannu atgofion am rai o gymeriadau Caernarfon.

Ers talem arferiad cael cefnogaeth frwd i'r Gymdeithas. Gobaith y Pwyllgor ar ôl darparu'r rhaglen yw adfer y brwdfrydedd hwnnw y gaeaf hwn gan gychwyn gyda'r cyfarfod nos Lun, Hydref 9.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

(01286) 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn a Mr W. Roberts, Glyn Ffynnon, Groeslon Marc yn eu profedigaeth o golli eu brawd yn Llanberis.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion gorau i Mrs Hughes, Hafan, Ffordd Glanmoelyn yn dilyn damwain ac i Mr Hywel Morris, Clydfan, Ffordd Glanmoelyn sy wedi bod yn yr ysbyty.

O'R YSGOL. Bob blwyddyn bydd disgyblion Blwyddyn Saith yn talu ymweliad â'u hen ysgol yn ystod eu dyddiau cyntaf yn Ysgol Brynrefail ac ni fu eleni yn eithriad. Daethant yn llw i sôn am eu profiadau cyntaf yn eu hamgylchedd newydd, a braf eu gweld.

Bydd y tri deg pump disgybl bach newydd a ymlwybrodd yn llaw eu rhieni i'r dosbarth meithrin yn setlo yn fuan iawn yn eu cynefin newydd. Croeso i bob un ohonynt.

Croeso cynnes hefyd i Miss Catrin Jones fel athrawes Blwyddyn 3.

MERCHED Y WAWR.

Agorwyd y tymor newydd dan lywyddiaeth Pyllis Elis ac Olwen Hughes yn ysgrifennydd. Cyflwynwyd rhodd i Pat Jones am ei gwaith y llynedd a dymunwyd y gorau i blant y pentref wrth iddynt wynebu ysgol a choleg.

Yn anffodus effeithodd argyfwng y tanwydd ar y gŵr gwadd, ond daeth Dafydd Whiteside Thomas i lenwi blwch ar fyr rybudd gyda chwis i hogi meddyliau'r aelodau. Roedd cystadlu brwd ymysg y timau wrth iddynt geisio datrys ambell gwestiwn a dyfalu teitlau englynion a phosau. Diolchwyd i Dafydd gan Nan Humphreys. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Ann Evans a Pat Jones.

Mae'r arlwy am y flwyddyn i ddod yn rhagoeli yn amrywiol a diddorol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Hydref 10 yng nghwmni Mair Penri a Sulwen Davies yn adrodd hanes eu hymweliad â Lesotho. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno.

GWERSI PIANO

OEDOLION/PLANT

CYSYLLTWCH Â
MAIR HUMPHREYS AR:
(01286) 674339


Y Sefydliad Coffa



Jill a Dave Rochelle o dafarn Glyntwrog yn trosglwyddo siec am £1000 i Linda Wavell o bwyllgor y Sefydliad Coffa. Roedd hwn yn gyfraniad ardderchog i'r gronfa ac yn hwb sylweddol i ymdrech y pentref.



Rhai o'r timau fu'n cymryd rhan yn y ras pramiau — fe gododd y gweithgaredd £500 at gronfa'r Sefydliad Coffa.

 **Cig, Bethel** 

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN



PORC LLEOL



**GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
ARBENNIG AM WYN LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

PRYD I BAWB
Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

- cinio busnes
- bedydd
- pen-blwydd
- te angladdau

CERID MACKINNON
(01286) 673190





**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

**Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)**

CROESAIR HYDREF



Dim ond rhai o weithgareddau y 31 i lawr 24 ar draws yw'r atebion i'r chwe gair nad oes cliwiau iddynt.

Ar Draws

4. Y gofid o golli rhywun (5)
10. Ildio yr amod? (6)
11. Llog (ar arian) (3)
12. Dymod, fel arfer ar yr wyneb (6)
13. Cyfarfodydd. Yn y capel? (7)
14. Y sŵn y disgwyliech ei glywed yn y beudy (9)
17. Rhaniadau o'r wlad ers talwm. Fe foddwyd o leiaf un ohonynt (8)
18. Ffurf â nifer o onglau iddo (8)
20. Brifo ----- (5)
22. ----- a ffraco (5)
26. Megis genedigaeth gyn-amserol (8)
28. Trosglwyddiadau i dadau cul? (9)
30. Sefydlog (7)
35. Yn uwch na'r cyffredin (3)
36. Drych sydd a'i wyneb yn bochio tuag allan (6)
37. Cydau mawr o ddefnydd garw (5)
38. Cosi ag offeryn miniog? (5)
39. Blaguro, fel y gwna natur yn y gwanwyn (5)

I Lawr

2. Ned Ward yn mynd yn gyn-ddeiriog am fod ganddo haint ar ei groen (7)
3. Adlewyrchiadau o barau dryslyd wedi galw yn ffwndrus (9)
5. Gwisg y mynach (4)
6. Ffurf ar rediad berf i fynegi gwahanol adegau (5)
7. 'Yr erwau -----' — tir llwm, moel (7)
8. Pleidlais (3)
9. Brawiau (5)
15. Darllen y flaed yn ôl i ddarganfod y pertaf (5)
16. Peth i rwbio i ffwrdd (6)
17. Cuddio (5)
19. Anonestrydd (5)
21. Dymuno (5)

23. Un o gampweithiau Kate Roberts (2,2,1,4)
25. Darnau maith o dir profa yn yr Amerig (7)
27. Yr ail wlad fwyaf yn Affrica (7)
28. Oherwydd ----- (5)
29. ----- gorchwyl beryglus (5)
32. Un sâl ---- (4)
34. --- ond mae hwn heb afiechyd (3)

Atebion Mis Medi

Efallai mai'r cliw i 29 ar draws yng nghroesair Medi sy'n gyfrifol am y ffaith fod y nifer o atebion a dderbyniais bron wedi eu haneru o gymharu â'r nifer arferol, ac o'r deunaw a anfonwyd, doedd ond tri yn berffaith gywir!

SODRO oedd yr ateb cywir, ac nid SODRA. O feddwl mewn termau cerddorol, byddai rhoi R yng nghanol C (sef Do) ar ôl G (sef So) yn rhoi'r gair SODRO, sy'n golygu asio.

Yr ateb i 17 i lawr oedd y broblem i eraill. DEURIS oedd yr ateb yr oeddwn yn chwilio amdano, ac er fod y TEIRES a dderbyniais gan lawer yn edrych fel ateb posibl, fedra i ddim gweld y gair yn yr un o'r geiriaduron sydd gen i.

Felly, Margaret W. Roberts, Caernarfon, Rhiannon Pritchard Jones, Clynnog ac Elfed Evans, Llanllechid, eich enwau chi a aeth i'r het, a Rhiannon Pritchard-Jones, Glan Ddôl, Clynnog Fawr LL54 5PF yw enillydd y mis. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair Hydref gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Hydref 16.

DYDDIADUR

MEDI

Sad 30 LLANBERIS. Eisteddfod Llanberis yn Festri Capel Coch.

HYDREF

Sul 1 YR ARDAL. Sbri yr Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail, 1.30 - 4.30.

Llun 2 DEINIOLEN. Swper Cynhaef Cymdeithas Eglwys Llandinorwig.

PENISARWAUN. Cyfarfod o'r cwrs Hanes Lleol.

Maw 3 LLANBERIS. Y Gymdeithas Lenyddol: Sgwrs gan y Parchg Trefor Lewis yn Festri Capel Coch am 7pm.

Iau 5 DEINIOLEN. Cyfarfod Chwirydd Cefnywaun ac Ebeneser yn Festri Ebeneser am 2 o'r gloch.

Llun 9 DEINIOLEN. Cyngor Eglwysig: Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghefnywaun am 7 o'r gloch.

WAUNFAWR. Y Gymdeithas Lenyddol: Côr Waunfawr yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch.

Maw 10 LLANRUG. Merched y Wawr: Mair Penri a Sulwen Davies yn sôn am eu hymweliad â Lesotho.

Mer 11 BETHEL. Merched y Wawr: Mr Bryn Griffiths yn sôn am lestri Gaudy Welsh.

Iau 12 BRYNREFAIL. Cymdeithas y Capel: 'Blasu Caws'.

Llun 16 DEINIOLEN. Merched y Wawr: Sgwrs a sleidiau am Lesotho.

CWM-Y-GLO. Cyngerdd er budd Eglwys Sant Gabriel am 7 o'r gloch.

BRYNREFAIL. Sefydliad y Merched: Lesley Evans yn arddangos gwaith paentio.


Maw 17 BETHEL. Y Gymdeithas: Noson hefo Parti Myra, Waunfawr, yn Festri Cysegr am 7.15 o'r gloch.

PENISARWAUN. Ocsiwn Addewidion wedi ei threfnu gan Bwyllgor y Neuadd.

Gwe 20 PENISARWAUN. Yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned am 6 o'r gloch.

Sad 21 DEINIOLEN. Eisteddfod Gwaun Gynfi.

Llun 23 DEINIOLEN. Y Gymdeithas Lenyddol: Aelodau ifanc y Seindorf yn cynnal noson yn Yr Hen Felin.



RHODDION

£5.00: Shirley ac Eurwyn Jones, Camelot, Penisarwaun; Elfed Evans, Hen Barc, Bethesda (enillydd Croesair y Mis); Paula ac Aneurin, Llanllyfni (gynt o Ddeiniolen).
Doreen, Derek, Dewi a Delyth, 50 Maes Padarn, Llanberis.
£3.00: Mark a Carys Jones, 1 Cae Capel Bach, Pen-y-groes.



**ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?**

Cysylltwch ag

**R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216**

**WALIO
A
FFENSIO**

CHIROPODIST

**Gwasanaeth
yn eich cartref**

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffon:

(01286) 675754



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

**Down â fo atoch
a'i nôl wedyn**

Ffôn: 871782

CHWARAEON

A-Wê

Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â datblygiadau technegol yr oes yma? Rydw i'n teimlo'n hollol ddiffwrth gan nad wyf yn eu deall o gwbl. Dwy law chwith go iawn. Er hynny, braf oedd cael llythyr gan Dafydd Evans o Benisarwaun yn ddiweddar. Y newyddion oedd fod tudalen Wê Gymraeg wedi ei chreu ganddo yn ymwneud â Chlwb Pêl-droed Llanrug.

Ar y dudalen arbennig hon ymdrinir â hanes y clwb, hanes datblygu'r cae, hanes chwaraewyr blaenllaw y clwb yn ystod ei hanes, ac fel y buasech yn tybio, digon o ystadegau.

Y mae'r cyfeiriad at ddatblygu'r cae yn dod ag atgofion hoff i mi. I lawer, mae Eithin Duon erbyn hyn yn un o feysydd gorau y gynghrair, yn sicr cyn belled ag y mae wyneb y cae yn y cwestiwn. Gyda'r stafelloedd newid braf a'r cwt te, mae'n dystiolaeth i ddynwch a gweithgarwch y pwyllgor.

Mor wahanol pan ddechreuais i chwarae, gyda'r cae yn gogwyddo'n sylweddol a'r ystafelloedd pren oedd mor dywyll, hyd yn oed ganol haf. Allan o'r 'tywyllwch' hwnnw byddai timau Llanrug yn mentro allan i herio pawb. Nid lle i'r calon-feddal oedd Eithin Duon yn y 60'au a'r

70'au cynnar. Gyda'r moethusrwydd efallai bod peth o'r 'cythraul' wedi diflannu. Beth bynnag, o niwl y gorffennol i'r dyfodol. Os ydych am gysylltu â'r daflen ar y wê y cyfeiriad yw: www.homestead.com/clwb/peldroedllanrug/eithin_duon.html.

O weld y fath gyfeiriad, buasai'n anodd ei roddi ar amlen. Gellir hefyd defnyddio offeryn chwilio megis Alta Vista, a defnyddio geiriau fel Llanrug, Clwb Pêl-droed Llanrug, Eithin Duon, Cynghrair Gwynedd etc, neu hyd yn oed Dafydd Evans, Penisarwaun.

Efallai y trof i mewn fy hun i'r dudalen — mae'n siwr o ddod ag atgofion melys(?) yn ôl — Arfon Lewis, Snowy, Hywyn, Len Padmore, Hefin Casgan — o ia, rhyw foi Selwyn rw bath o Llanbêr. Ouch!

Ydych chi'n cofio gemau ysgolion bore Sadwrn? Wel, mae'n ymddangos bod y rhod yn troi ac mae'r hen drefn yn dychwelyd. Ym myd rygbi, beth bynnag. Ailffurfiwyd Cynghrair Rygbi Ysgolion Uwchradd Gogledd Cymru i dimau hŷn dan 18. Mae wyth ysgol yn ymestyn o Bwllheli i'r Wyddgrug wedi mentro. Mae tipyn o abwyd i ymuno gan fod Undeb Rygbi Cymru yn ceisio hyrwyddo'r gêm yn ei gwreiddiau trwy gynllun Rygbi'r Ddraig. Mae pob tîm sydd yn y Gynghrair wedi derbyn set o grysau gan yr Undeb.

Mae rygbi yn dechrau ennill ei blwyf yn yr oedrannau cynnar hefyd erbyn hyn. Braf gweld arian mawr torfeydd Stadiwm y Mileniwm yn treiddio i'r 'gwreiddiau'. Mor llwm yw hi ym myd y bêl-droed a'r Gynghrair Genedlaethol heb noddwr, a sawl clwb yn rhoi'r ffidil yn y to. Trist sylwi mai dim ond un tîm — ail dîm Llanrug — fydd yn cynrychioli'r fro yn y 'gwpan fawr', y Junior Cup eleni.

Tîm rygbi diweddaraf y fro yw tîm Ysgol Gynradd Bethel. Bu eu prifathro Teifion Thomas yn was ffyddlon i glwb Caernarfon am flynyddoedd, a bu nifer o blant y fro yn mynychu nosweithiau

hyfforddi y clwb hwnnw. Diddorol sylwi mai dim ond o 24-10 y collodd y Cofis yn erbyn Wrecsam yn ddiweddar. Sbardun arall i ddisgyblion Bethel oedd fod Aled Roberts, Yr Aden wedi cynrychioli tîm Ysgolion Cynradd Gwynedd y tymor diwethaf. Eisoes mae tîm yr ysgol wedi chwarae dwy gêm 'gyfeillgar'.

Does dim cynghrair pêl-droed ysgolion yn y fro, ond mae rhai ysgolion, fel Bethel, yn trefnu gemau ymysg ei gilydd. Hoffai'r ysgol hefyd ddiolch i Tim, Garej Beran am ei haelioni arferol yn noddol cit cyfan i'r tîm pêl-droed.

O dan ofal Mari Williams a Nia Gwawr Jones mae tîm pêl-rwyd yr ysgol hefyd yn ymlwybro ymlaen. Pwy a wŷr, efallai daw'r gemau ysgolion bore Sadwrn yn fwy poblogaidd unwaith eto. Atgofion melys i lawer ohonoch mae'n siŵr. Bws i'r gemau, ac yna bwyd. Lobsgows ym Motwnnog; Spam yn John Brights; Selsig, sglodion a ffa pob ym Mhorthmadog... Yna rhuthro adref i chwarae i'r clwb yn y pñawn. On'd oedden nhw'n ddyddiau braf?

Pwy yw Sêr Ein Bro?

Unwaith eto eleni, mae Cyngor Chwaraeon Dosbarth Arfon yn awyddus i gefnogi cyfraniadau a gorchestion unigolion a thimau lleol i chwaraeon.

Yn awr mae gennym ni, ardalwyr Arfon, gyfle i enwebu unigolion a thimau er mwyn galluogi y Cyngor Chwaraeon i ddewis enillwyr mewn 9 categori.

Dros y blynyddoedd bu Bro'r Eco yn hynod lwyddiannus a'r enillwyr yn amlygu yr ystod gallu o chwaraeon a champau sy'n britho'r ardal erbyn hyn. Daeth tlysau i fyd athletau, traws gwlad, nofio, criced a hyfforddi a gweinyddu pêl-droed. Y noson fawr eleni — unwaith eto yn awyrgylch moethus Gwesty'r Celt, Caernarfon — fydd nos Lun, Tachwedd 10.

Er pwysiced y gwobrau lleol, maent hefyd yn fan cychwyn yn rhai categorïau i lefel rhanbarth a chenedlaethol. Daw cyfle iddynt ennill 'Tlws Gwynedd' ac yng nghategoriâu Hyfforddwr a Gweinyddwr y Flwyddyn, byddant yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth trwy Gymru gyfan.

Er mwyn didoli a phenderfynu rhaid llenwi y ffurflenni noddol pwrpasol erbyn Hydref 9, fan bellaf. Mae nifer o glybiau sy'n aelodau o'r Cyngor Chwaraeon eisoes wedi derbyn y ffurflenni, ond gall unigolion enwebu hefyd. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â'r Ysgrifennydd, Jen Williams, Fferm Cae Helygen, Bontnewydd, Caernarfon LL55 7YG.

I'ch atgoffa, y naw categori y dyfennir tlysau iddynt yw: Gwasanaeth i Chwaraeon; Gwobr Arbennig (yn ymdrin ag anabledd); Gweinyddwr y Flwyddyn; Tîm leuenctid y Flwyddyn; Tîm y Flwyddyn; Hyfforddwr y Flwyddyn; Geneth y Flwyddyn; Bachgen y Flwyddyn; Campwr y Flwyddyn.

Dyma'ch cyfle i ddangos eich diolch a'ch edmygedd o'r nifer 'tawel' sy'n cynnal y campau yn y fro.

Y Darbi



Timau Deiniolen (uchod) a Llanrug (isod) a fu'n chwarae yn y gêm ddarbi yn ddiweddar. Enillodd Llanrug o 4 gôl i 2.